

ECO'R WYDDFA

Rhif 130

Tachwedd 1987

Pris 20c

CYNNIG I WRTHOD DATBLYGIADAU CYFNOD- RANNU YN METHU

Mewn cyfarfod llawn o Gyngor Bwrdeistref Arfon a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, Hydref 20ed, penderfynodd yr aelodau i beidio a gwyrddroi eu polisi ar ddatblygiadau "cyfnod-rannu" (time-share).

Cynigiodd y Cyngorydd Neville Hughes, Llandegai fod y Cyngor i wrthod caniatâd cynllunio i bob datblygiad cyfnod-rannu. Adroddodd ei fod yn anhapus iawn ynglŷn â datblygiadau o'r fath, ac er bod cynlluniau fel hyn yn addo dod â gwaith i'r ardal, roedd yn amheus o'r nifer o swyddi. Dywedodd fod arian mawr tu cefn i rai o'r cynlluniau hyn, ond credai mai "wyneb annerbyniol cyfalafiaeth" ydoedd. Roedd posibilrwydd hefyd i ddatblygiadau o'r fath fod yn fodd i agor y drws cefn i adeiladu stadau o dai yng nghefn gwlad - nad oedd dim o'u hangen.

Wrth gefnogi'r cynnig, dywedodd y Cyngorydd Dafydd Thomas, Llanrug fod datblygiadau o'r fath yn fygythiad i Gymreigrwydd ardal. Roedd sôn fod rhai o'r cynlluniau yn anelu at godi 150 o unedau byw, ac os byddai teulu o 4 yn aros ym mhob uned, a'r unedau ar agor am 50 wythnos o'r flwyddyn, yna golygai hyn 30,000 o ymwelwyr di-Gymraeg y flwyddyn o fewn

cymunedau gwledig fel Llandwrog, Caeathro a Llanrug - neu bedair gwaith poblogaeth Caernarfon. Gallai datblygiadau o'r fath danseilio holl ddiwylliant Cymraeg a Chymreig yr ardal.

Roedd y Cyngorydd Glyn Owen, Llanwnda yn amddiffyn polisi'r Cyngor gan honni fod angen annog twristiaeth yma - a hynny am gyfnod mwy na'r tymor gwyliau presennol. Dywedodd fod y gwaith yn cael ei greu, a bod naw gwaith mwy o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant ymwelwyr nac yn y diwydiant glo.

Er i gynnig y Cyngorydd Neville Hughes fethu, penderfynodd yr aelodau, ar gynigiad y Cyngorydd Brian Jones, Cwm-y-glo fod yr holl ddogfen yn ymdrin â pholisi "cyfnod-rannu" yn cael ei hanfon yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn i bawb gael ei thrafod yn fanwl. (Roedd y polisi wedi ei lunio gan is-bwyllgor.)

CADAIR LLANRUG I'R GOLYGYDD



Dafydd Whiteside Thomas, Golygydd Erthyglau'r Eco enillodd gadair Eisteddfod Bentref Llanrug a Lowri Angharad Roberts oedd y prif lenor yn adran yr ifanc. Trowch i dudalen 4 am y cynnyrch a'r canlyniadau.

"LLYN-IAU!"

Dyma rai o'r golygfeydd a welodd ffotograffydd yr Eco ym mhentrefi dyffryn Peris a Seiont ddydd Sul, Hydref 18. Yn dilyn rhai o'r glawogydd trymaf a gafwyd ers tro byd, cafwyd llawer o drafferthion yn y fro. Ein cydymdeimlad â'r nifer ohonoch a ddioddefodd effeithiau'r gorlif.



"Stryd"? Fawr Llanberis.



Dros ben y bont, Llanrug



Cwm dan glo. Rhagor o luniau yng ngholofnau'r pentrefi.

ECO'R WYDDFA

RHIF 130
TACHWEDD

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron-y-Nant, Pontrhythallt, Llanrug.
(C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs Olwen
Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug.
(Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithnog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed. 870580.

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D.J. Thomas, 8 Maes
Eilian. (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir, Llanberis.

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs Mary Ff. Roberts,
Cerrig-y-drudion, Nant, Peris.
(871327)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU TACHWEDD 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
TACHWEDD 17
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

LLETY YN 'STEDDFOD CASNEWYDD

Annwyl Olygydd,

Ar hyn o bryd mae digon o ddewis
rhwyngwestai uchel-ael ac
ystafelloedd mewn neuaddau
preswyl ar gyfer Eisteddfod
Casnewydd. 'Rydym wedi mentro
diogelu 800 o ystafelloedd yn y
neuaddau, ac mae rheolwyr y
neuaddau braidd yn bryderus na
fyddwn yn gwneud defnydd llawn o'r
adnoddau.

Rhaid i ni ystyried angen y
colegau i ddiogelu incwm, felly
bwriadwn dorri i lawr ar y nifer o
ystafelloedd sydd wrth gefn. Os
ydych am le mewn coleg, anfonwch
yn ddioed am ffurflen gais, a
chofiwch flaendal o ddeg punt y pen
pan ddychwelir y ffurflen.

Mae nifer yn gofyn am dai haf ar
osod yng nghysgod y pafiliwn. Dim
gobaith. Nid yw tai haf yn broblem
yng Nghasnewydd!

Luned Tudno Jones,
(Ysgrifennydd Llety)
Swyddfa'r Eisteddfod,
Moderator Wharf,
Rhodfa'r Brenin,
Casnewydd,
Gwent.
NP9 1EX

"HEN DDARANS"

Annwyl Olygydd,

Cyfeiriaf at rifyn Hydref o'r Eco,
Tudalen 8 yn gofyn os oedd unrhyw
un yn adnabyddus. Mae ewythr i mi,
sef Mr W.H. Williams, neu fel y
byddai pawb yn ei adnabod - Wil
Penny, yn dal y gwpan yn y llun.
Roedd ef yn ei ddyddiau yn
bêl-droediwr campus yn ôl beth a
glywais. Brawd i mam ydoedd, y
ddau wedi ein gadael bellach ond yn
dal yn annwyl iawn yn y cof o hyd.

Byddaf yn cael yr Eco ar ôl i
ewythr arall imi ei ddarllen, sef Aled
Owen ac ar ôl i mi ei ddarllen, mae fy
chwaer Stella yn ei gael. Mae
teithiau'r Eco yn mynd yn bell iawn,
bydd Nansi fy chwaer yn ei dderbyn
yng Nghanada yn gyson gan gyn
athro Ffrangeg Ysgol Brynrefail, Mr
Davies sy'n briod a Nansi o Lanberis.
Gwelwch felly mor boblogaidd yw
eich papur bro, ac at gronfa i'w
gynnal 'rwy'n anfon y siec yma am
£5.

Yn gywir iawn,
Mrs Edith Williams,
Bron Rhiw
Chwillog,
Pwllheli.

PLANT MEWN ANGEN

Annwyl Olygydd,

Eleni fe gynhelir diwrnod 'Plant
Mewn Angen' y BBC ar ddydd
Gwener y 27ain o Dachwedd. Bu
haelioni'r Cymry tuag at yr achos y
llynedd yn ddigon o ryfeddod ond y
peth pwysicaf yw i blant anghenus
elwa llawer o'r caredigrwydd. Tybed,
drwy golofnau'ch papur bro, allwn ni
ofyn i'ch darllewynyr ddechrau
meddwl am ffyrdd o godi arian at yr
achlysur eto? Un peth, efallai, y
dylem ni ei danlinellu yw bod croeso i
unrhyw swm, o geiniog i bunt, o
ganpunt i filoedd ac mae pob un
geiniog yn mynd at y plant.

Os yr ydych am fwy o fanylion,
cysylltwch â John Trefor, Caerdydd
610061 estyniad, 2040.

Mae ar blant mewn angen eich
angen chi.

Yr eiddoch yn gywir,
Helen Evans (Ysg),
pp Gwyn Griffiths,
Uwch Swyddog y Wasg a
Chysylltiadau Cyhoeddusrwydd,
Cymru.
Canolfan y BBC,
Llandâf,
Caerdydd.
CF5 2YQ

HANES CERDD DANT

Annwyl Olygydd,

Tybed a fyddwch cystal â
chyhoeddi'r llythyr hwn yng
ngholofnau eich papur bro, yn y
gobaith y bydd rhai o'ch darllenwyr
yn barod i'm cynorthwyo.

Yr wyf ar hyn o bryd yn gwneud
ymchwiliad i hanes canu gyda'r tannau,
- gan ganolbwyntio'n arbennig ar
hanner cynta'r ganrif hon. Tua
diwedd y ganrif ddiwethaf, bu bron
i'r hen grefft o 'ganu penillion' farw
o'r tir. Yn ffodus, goroesodd yr hen
gelfyddyd ar ambell aelwyd ac mewn
ambell fro, ac yn ystod ein canrif ni,
gwelwyd adfywiad sydd wedi
parhau hyd heddiw.

Byddwn yn croesawu
gwybodaeth am unrhyw
ddatgeiniad neu osodwyr oedd yn
ymhel â'r gelfyddyd yn eich ardal chi
yn ystod y cyfnod 1910-1930. Os oes
gennych unrhyw wybodaeth
amdanynt ac am y dylanwadau a
roddodd iddynt eu diddordeb,
byddwn yn gwerthfawrogi derbyn
gair gennych.

Yr eiddoch yn ddiolchgar,
Aled L. Davies
14 Ffordd Argoed,
Yr Wyddgrug,
Clwyd. CH7 1LY

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Cyfarfod Tachwedd
Nos Fercher, Tachwedd 18ed
Neuadd Waunfawr am 7.30 p.m.

Darlith gan
TREFOR M OWEN
Cyn guradur Amgueddfa Sain Ffagan
"Agweddau ar Fywyd Gwerin"
Croeso i aelodau hen a newydd.

DEMOCRATIAETH A'R NEWIDIADAU YM MYD ADDYSG

Annwyl Olygydd,

Yng Nghynhadledd y Toriaid yn
Blackpool dywedodd yr
Ysgrifennydd Addysg na fyddai
gwrthwynebiad yn ei rwystro na
pheri iddo oedi cyn gweithredu ei
bolisiau. Nid oedd ganddo fwrriad i
newid ymrwymadau maniffesto'r
Toriaid ac ni fyddai'n ystyried ond
cynigion cydnaws â'i gynlluniau ef ei
hun.

Yn yr Etholiad Cyffredinol dim
ond 42 y cant o'r pleidleiswyr a
gefnogodd y Toriaid a 'does dim
tystiolaeth fod addysg yn ffactor
allweddol yn eu hethol. Os gwir mai
amddiffyn oedd bwgan Llafur, fe
drodd llawer at y Toriaid er gwaethaf
eu cynigion addysg. P'run bynnag,
oni dylem ddisgwyl i unrhyw
lwyodraeth ddemocrataidd roi sylw i
farn yr awdurdodau lleol sy'n gorfod
gweinyddu addysg, y cyrff
proffesiynol yn y maes a barn y
cyhoedd yn gyffredinol? Sawl gwaith
y clywyd Aelod Seneddol yn dweud
mai ei waith ar ôl cael ei ethol yw
gwasanaethu'r gymdogaeth gyfan ac
nid ei blaid ei hun?

Mewn democratiaeth, wrth gwrs,
derbynnir hawl y 51 y cant i
lywodraethu dros y 49 y cant yn
achos materion dydd i ddydd. Y mae,
fodd bynnag, i gynigion Mr. Baker y
fath oblygiadau cyfansoddiadol fel
na ddylid eu gweithredu hyd yn oed
mewn gwlad gyda chyfansoddiad
ysgrifenedig, heb gonsensws pur
eang, heb sôn am drafodaeth
drylwyr. Yma nid oed cyfansoddiad
o'r fath ac y mae cynnwys y
cynlluniau ynghanol bagad o
gynigion maniffesto a gefnogwyd
gan 42 y cant yn unig o'r etholwyr, os
hynny, yn sylfaen go simsan i
weithredu newidiadau mor
bellgyrhaeddol.

Yng Nghymru bu gennym ein
system addysg unigryw ein hunain
ers bron i ganrif. Fel aelod
Annibynnol o Gyngor Sir nas rheolir
gan unrhyw blaid wleidyddol apeliaf
ar Mr. Peter Walker, ein
Ysgrifennydd Gwladol, i efelychu
gwrthwynebiad ei gyd-Geidwadwr
Dr. David Muffet, Cadeirydd Pwyllgor
Addysg etholaeth Mr. Walker ei hun.
Yng Nghymru gwrthododd dros 70 y
cant y maniffesto Ceidwadol ac
'rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o
aelodau Toriaidd ar Bwyllgorau
Addysg yn cefnogi Dr. Muffet.

Yn y Gymru Wledig a'r cymoedd
nid oes unrhyw system a fyddai'n
debycach o roi i rieni well dewis
ysgolion neu well cwricwlwm na'r
hyn a ddarperir iddynt gan
gynghorwyr sy'n gorfod ateb i'w
hetholwyr bob tro y cerddant i lawr y
stryd. Yn anad dim dylai Mr. Walker
gofio fod Cynghorwyr hefyd yn
gynrychiolwyr etholedig a
ddewiswyd trwy'r un broses ag
Aelodau Seneddol, er bod iddynt
swyddogaethau gwahanol. A phan
etholir Cynghorwyr Sir, mae'r
pleidleiswyr yn llawer tebycach o fod
yn meddwl am addysg nag
amddiffyn, treth incwm neu
ddiweithdra.

Yn gywir,
A. Robertson,
Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

AR GOLL

Ers tri mis, mae cath lwyd,
hefo traed gwyn o'r enw Twts.
Cysylltwch os gwelwch yn dda â
Llanberis 871541. Diolch yn fawr.

SUT I YSGRIFENNU LLYTHYR

Ni fydd gan neb esgus bellach i beidio ac ysgrifennu pwt o lythyr, gan fod llyfr bach newydd ei gyhoeddi gan Fudiad Cefn yn cynnwys esiamplau hwylus o bob math o lythyron, ar gyfer bob achlysur. Mae'r llyfr 'Sut i Ysgrifennu Llythyr' gan D. Arfon Rhys sy'n ddarlithydd yng Ngholeg Pencraig, Llangefni, Ynys Môn, wedi ei gynllunio i roddi hyder i bobl gyffredin i fentro ysgrifennu llythyron Cymraeg at gyfeillion ac at eraill. Ceir cyfarwyddiadau dwy-ieithog yn y llyfr i helpu dysgwyr i ddechrau ysgrifennu, ac yn y cefn mae tudalen ar sut i ysgrifennu sieciau gyda'r geiriau cywir ar gyfer pob ffigwr. Dangosir hefyd sut i gyfarch pawb, o'r Archesgob i'ch cyngorydd lleol, mewn llythyr, ac mae'r ychydig dermau busnes Cymraeg yn werthfawr i bawb sydd am wybod y gwahaniaeth rhwng 'nodyn cludiant' a 'nodyn cludo'.

Mae'r awgrymiadau ar sut i baratoi llythyr cais am swydd a sut i ysgrifennu llythyr busnes o ddiddordeb arbennig i fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau, tra fod yr enghreifftiau o lythyron diolch, derbyn gwahoddiad, llongyfarch a chydydeimlo o werth i bawb. Bydd y fam sy'n ysgrifennu llythyr i'r ysgol wedi salwch plentyn yn falch iawn hefyd o'r rhestr enwau salwch a'r esiampl o lythyr a geir yma yn y llyfr. Mae un dudalen yn y llyfr yn egluro sut i baratoi agenda pwyllgor, a sut i fynd ati i alw cyfarfodydd a bydd hyn o gymorth i bob ysgrifennydd cymdeithas leol. Pris y llyfr yw un bunt yn unig, ac mae ar werth yn eich siop lyfrau lleol.

Tŷ ARALL I NANTGWRTHEYRN

Annwyl Syr,

Mae Cylch Cinio Aberystwyth wedi lansio apêl tuag at adenwyddu tŷ yng Nghanolfan laith Nantgwrtheyrn.

Agorwyd y gronfa gyda chyfraniad o £500 yn y gobaith bydd Cylchoedd Cinio eraill ledled Cymru yn ymuno yn yr ymgyrch ac yn helpu i gyrraedd y nod o £10,000.

Gan nad oes yna gorff cenedlaethol yn gweithredu ar ran y Cylchoedd Cinio byddwn yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad i dynnu sylw at yr ymgyrch hon. Prin bod angen pwysleisio pwysigrwydd menter fawr Nantgwrtheyrn i aelodau'r Cylchoedd Cinio. Byddai adnewyddu tŷ arall yn hwb sylweddol i'r gwaith yno.

Byddwn yn gwerthfawrogi cefnogaeth o bob rhan o Gymru i'r Apêl hon.

Yn gywir,
Wynne Melville Jones, Cadeirydd
Graham Rees, Ysgrifennydd
6 Cae Wern,
Glanwern,
Borth,
Aberystwyth.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gronfa'r Eco:

£5 Mrs A.W. Hughes, Llanberis;
Mr a Mrs Rodney Jones, Stevenage;
Mrs Violet Jones, Stevenage (er cof am ei phriod Alun Tudur Jones);
Mrs Edith Williams, Pwllheli; Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Llanrug.
£3 Mrs Annie Jones, Paradwys, Gaerwen; Miss Mary Owen, Hafan Elan.

£2.20 Di-enw.

£2 Dylan Price Williams, Cae'r Bythod, Penisarwaun; Di-enw, Deiniolen.

£1 Mr a Mrs D.Morris, 7 Rhes Deiniol, Deiniolen.

Y CYLCH TÂN CELTAIDD



Aled yn derbyn y Fflam Dân oddi wrth Maer Caernarfon, Mr Huw Edwards ar ddechrau'r daith o Gaernarfon. Gyda hwy mae Haf, Elwyn ac Andrew.

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON

Er nad yw'r Clwb yn cyfarfod yn ystod misoed yr haf, bu nifer o'r aelodau yn brysur. Bu Aled Jones, Andrew Kettle, Elwyn Parry, Haf Owen a Myfanwy Jones yn rhedeg ar ran y Clwb o Gaernarfon i'r Felinheli yn y Cylch Tân Celtaidd sef Ymgyrch Clybiau Ffermwyr Ieuanc Cymru i gasglu arian ar Ymchwil Leukemia Cymru. Mwynhawyd y rhedeg yn fawr a chasglwyd £160 o arian mewn nawdd gan y Clwb.

Bu Eirwyn Jones yn Pant y Deri, Boncath fel aelod o dîm Eryri ar gyfer y rhaglen Pentymora a welwyd ar y teledu nos Sadwrn, Hydref 17eg. Er na enillodd y tîm mwynhaodd pawb y profiad a'r hwyl a gafwyd.

Mae'r Clwb wedi ail-ddechrau ers mis bellach. Agorwyd drwy gael noson Helfa Drysor drwy bapur newydd a drefnwyd gan Ellen Hughes, yr ysgrifennydd. Enillwyd yr Helfa gan Haf a Myfanwy. Nos Fawrth, Medi 29ain Meirion Williams, Cadeirydd y Sir, fu'n dangos sleidiau ar Rali Ewropiaidd Clybiau Ffermwyr Ieuanc yn y Ffindir. Gethin Clwyd, Trefnydd y Sir, fu'n ein diddori nos

Fawrth Hydref 7ed pryd y cymerodd yr aelodau ran mewn gêm o 'Stumiau', cafwyd noson hwyliog dros ben.

Bob nos Fawrth mae'r Clwb yn cyfarfod am 8 o'r gloch yn Neuadd Goffa Bethel. Ar hyn o bryd mae ganddom ugain aelod sy'n hynod o ffyddlon ond os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno â'r Clwb mae drws y Neuadd yn agored bob Nos Fawrth, felly galwch i mewn. Dim ond un rheol sydd yna mae'n rhaid i chi fod yn dosbarth 3 yn yr ysgol Uwchradd neu'n hŷn na hynny.

Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988

Testunau Ychwanegol yn yr Adran Lenyddiaeth

1. Casgliad o gerddi a phenillion o bapur lleol unrhyw fro neu ardal.
2. Ysgrif olygyddol, heb fod dros 300 o eiriau, ar gyfer rhifyn Ebrill 1988 o unrhyw bapur bro.
3. Dyddiadur, dros gyfnod byr, person diwaith.
4. Beirniadaeth ar raglenni plant S4C.
5. Hanes un teulu, neu unigolyn, a ymfudodd o Gymru i Awstralia.
6. Cyfrol — Detholiad o nodiadau golygyddol y ddiweddar Jennie Eirian Davies.
7. Mynegai i gyfrolau Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfodau Cenedlaethol Cymru yn ystod y ganrif hon.

GORSAFOEDD YNG NGWYNEDD — DDOE A HEDDIW

Dyma lyfryn i bob un sydd â diddordeb mewn trenau ac yn arbennig i'r sawl sy'n ymddiddori yn hanes rheilffyrdd Gwynedd.

Nid gwaith swmpus academiaidd mohono, ond yn hytrach llyfryn 48 tudalen yn cynnwys rhagair, nodiadau cyffredinol, 5 map clir, 4 pennod fer, ddifyr a 70 (ie saithdeg!) o ffotograffau du a gwyn. Ryset ragorol i sicrhau gwerthiant da.


Kenneth Wyn Robinson, dirprwy bennaeth ysgol y Groeslon yw'r awdur ac Ifor Pritchard sy'n gyfrifol am y lluniau pen ac inc sy'n cyfrannu at ddiwyg y llyfr.

Ymsyg y lluniau diddorol mae un o orsaf Pontrhythallt yn 1964 yn dangos fod popeth yn ei le er fod y 'gangen' o Gaernarfon i Lanberis eisoes wedi cau.

Cyhoeddiadau Mei, Penygroes yw'r cyhoeddwyr ac mae'r llyfr yn fargen am £1.75.



Gorsaf Pontrhythallt yn 1964, a'r gangen o Gaernarfon i Lanberis eisoes wedi cau, er bod popeth yn ei le.



Mae'r bont ym Mhontrhythallt o hyd, ac mae'r orsaf ei hun yn dŷ preswyl.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mr Ken Smith, 13 Rhos Rug ar farwolaeth ei dad yng Nghaernarfon.

HWIORYDD CAPEL MAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwirydd yn festri Capel Mawr yn ddiweddar. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Jean Davies. Penderfynwyd i gynnal y Ffair Nadolig ar Ragfyr 3ydd. Rhoddwyd y te gan Mrs N J Jones, Madryn a Mrs M. Roberts, Rhos Plastirion.

DYMUNIADAU GORAU am wellhad buan i Mrs Dilys Jones, Warden Hafan Elan.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mr a Mrs John Griffith Jones, Ger y Ffynnon, Talybont ar farwolaeth sydyn eu hunig ferch Eirwen yn Llandudno.

PENBLWYDD: Llongyfarchiadau i Mr Tom Jones, 6 Rhos Rug ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos Davies, 'Bod Awel' ac Alwen Jones, 2 Nantglyn ar ddathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â theulu y diweddar Miss Nellie Owen, Ty'n Radd a Mrs Ellen Howell, Bryn Elert yn eu profedigaethau yn ddiweddar.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd Diolchgarwch y plant yng Nghapel Mawr fore Sul Hydref 4ydd. Cafwyd anerkriad gan y gweinidog y Parch John Morris. Yr organyddes oedd Mrs Carys Jones. Cynhaliwyd cyfarfod gweddi gan y sywddogion gyda'r nos.

PRIODAS: Priodwyd Carol Anne Roberts, Gwylfa ac Alan Jones, 26 Stryd Dinorwig, Caernarfon yng Nghapel Mawr ar Hydref 3ydd. Gweinyddwyd gan y Gweinidog y Parch John Morris. Yr organydd oedd Mr Huw Alan Roberts. Dymuniadau gorau i'r ddau.

YSGOL GYNRADD: Nos Iau, Hydref 15ed cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn tuag at gronfa'r ysgol. Cafwyd stondinau, gemau a nifer o rafflau yno. Dyma'r enillwyr: Pwysau'r gacen - Mr Gwyndaf Jones; Enw'r Dref - Michael Hornby; Anagramau - Mrs Owen, Blaenau Ffestiniog; Ridl-mi-ri - 1. Luned Mair; 2. Helen Jennings; 3. Luned Mair. Bocs ffrwythau - Owain Davies; Basged Becws Bryngwyn - 1. Iwan a Nia Griffith; 2. Mr Twrog Jones. Raffl y Gegin - 1. Caroline Jones; 2. Mrs Eira Wyn Jones; 3. Deian Roberts.

Carem ddilch i bawb a gyfrannodd nwyddau, rhoddion neu wobrau raffl. Diolch o galon hefyd i chwithau drigolion y pentref am droi allan i gefnogi'r noson a sicrhau llwyddiant.

YMDDEOLIAD: Pob dymuniad da i Mrs Beryl Thomas ar ei hymddeoliad. Bu'n gweithio am dros ugain mlynedd yng Nghegin yr Ysgol a dydd Gwener Hydref 16 derbyniodd hip-pip hwre fawr gan dros 200 o blant. Gyda hyn cafodd rodd o siec ac anferth o gerdyn mawr wedi'i arwyddo gan bawb. Pob hwyl a diolch i Anti Beryl!

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Hydref 13eg daeth Miss Dawn Blackwell atom i sôn am ei gwaith gyda Thim Cymunedol Anfantais Meddwl Arfon. Mae hi'n gweithio yng Nghaernarfon ers tair blynedd bellach. Hi sy'n gyfrifol am drefnu y gwasnaethau gwirfoddol.

Eglurodd i ni'r cynlluniau ar gyfer integreiddio pobl dan anfantais meddyliol i mewn i'r gymdeithas a'u hyfforddi i fod yn aelodau cyfrifol a

gwerthfawr ohoni. Soniodd yn bennaf am y Cynllun Modryb ac Ewyrth yn Arfon. Nid oes neb, ar hyn o bryd, o Lanrug ar y cynllun hwn. Mae gwir angen llawer mwy o wirfoddolwyr. Os am fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â:

Tim Cymunedol Anfantais Meddwl Arfon, Castle House, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd. FFôn C'fon 4121 Est. 2302 neu 2304.

Diolchwyd i Miss Blackwell gan Mrs Megan Roberts. Mrs Megan Williams enillodd y raffl. Cafwyd paned a bisged gan 'Genod' Penisarwaun - sef Phylis, Jean, Heulwen, Eileen, Myfanwy ac Ann, a diolchodd Mrs Lovatt iddynt. Yn y cyfarfod nesaf Tachwedd 10ed, bydd Dr. Dafydd Roberts yn sôn am y Diwydiant Llechi a'r Bröydd Chwarelyddol. Wnaiff pawb sylwi fod y cyfarfodydd yn dechrau am 7 o'r gloch o hyn ymlaen. A wnaiff pawb sy'n dymuno mynd i'r cinio Nadolig yng Ngwesty Gwêl y Llyn ar Ragfyr 8ed, ddod â'r arian i'r cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda?

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos Iau Hydref 15ed gyda noson o adloniant gan Gantorion Moriah. Llywydd y noson oedd Mr J.W. Owen. Darparwyd lluniaeth i'r parti gan ferched y Gymdeithas, gyda lluniaeth ysgafn i bawb oedd yn bresennol. Diolchwyd i'r parti gan Mrs W.O. Roberts a Mrs N. Lovatt, a diolchwyd i'r merched am baratoi'r bwyd gan Mr O. Davies.

DYMUNI'R adferiad iechyd buan i Mrs Sally Jones, 29 Bro Rhyddallt sydd yn Ysbyty Gwynedd yn cael llaw-driniaeth ac i Mr Bobbie Jones, Parc Isaf sydd yn glaf yn yr Ysbyty.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth yr 20ed, gyda Mr Ifor Williams, Hafan Elan yn llywyddu, cafwyd darlith gan Mr William Owen, Borth y Gest, yn dwyn y teitl "Cyn Torri'r Llinyn Arian." Cafwyd mwynhad o'i wrando yn sôn am rai o'i atgofion cynnar ar Ynys Môn. Talwyd diolch iddo gan y Parch Erfyl Blainey. Yn y cyfarfod nesaf, Tachwedd 3ydd, disgwylir rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail, gyda'u

YMDDEOLIAD ANTI BERYL



Ddydd Gwener, Hydref 16 ffarweliodd plant, ei chyd-weithwyr ac athrawon ysgol Gynradd Llanrug â Mrs Beryl Rhomas a oedd yn ymddeol ar ôl dros 20 mlynedd o wasanaeth fel cynorthwywraig amser cinio. Derbyniodd dymuniadau da a rhoddion a cherdyn arbennig wedi ei arwyddo gan bob plentyn yn yr ysgol.

LLWYDDIANT MEWN PROFION BEICIO



Plant Safon 4 Ysgol Gynradd Llanrug a fu yn llwyddiannus mewn profion medrusrwydd beicio. Gyda nhw mae'r hyfforddwraig Miriam Hughes a'r Cwnstabl Ceris Williams.

hathrawes cerdd Mrs Megan Roberts.

Y CHWIORYDD: Cynhaliwyd cyfarfod y chwirydd pnaun Iau Hydref 15ed yn Festri Pontrhythall, a llywyddwyd gan Mrs M Lloyd Williams, hi hefyd yn dechrau'r gwasanaeth. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs C. Williams, Hafan Elan, ar Atgofion Plentynod. Diolchwyd iddi gan Mrs Williams, Bod Fair. Rhoddwyd y te gan Mrs C Williams, Hafan Elan, Mrs A Parry, Bryn Coch Terr, a Mrs J Roberts, Elidir View.

PLAID CYMRU: Yn ystod y mis aeth aelodau o'r gangen i weld y ddrama "Lle Mynno'r Gwynt" i Theatr

Gwynedd, Bangor. Nos Fercher, Tachwedd 4 fe ddaw Eluned Nickson i roi sgwrs am dlodi yn y trydydd byd. Tstun y sgwrs fydd 'Dyheu am newid'. Croesawn aelodau o gangen Waunfawr i'r cyfarfod yma. Atgoffwn yr aelodau bod tâl aelodaeth yn ddyledus yn awr. Cynhelliir cinio Nadolig y gangen ar nos Fercher, Rhagfyr 2. Os ydych am ddod i'r cinio a rowch eich enwau i'r ysgrifenyddion yn ystod y mis nesaf os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Kathleen Hughes Y.H., Pant Afon ar ei hethol yn Gadeirydd yr Ynadon ar Fainc Caernarfon a Gwyrfa.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG CANLYNIADAU


EISTEDDFOD Y PRYNHAWN

Gwnio: Safon 1 a 2: 1. Clunk Oil - Luned Mair Jones; 2. Sunlight a Pigyn - Jacqueline Gibbins a Iwan Griffiths; 3. Nicola, Rwdlan a Pegi Pin - Nicola Proudley Williams, Dawn Pritchard a Sioned Mair Jones. Safon 3 a 4: Posey - Nicola Gibbins. Ceginio: Babanod canol ac uchaf: 1. Cyfartal - Catrin Grinvalds ac Emma Lloyd Davies; 2. Y Llipryn Llywyd - Rhys Morris; 3. Siwan - Steffan Rhys Evans a Twm Tomato - Gwion Iwan. Safon 1 a 2: 1. Rwdlan I - Dawn Pritchard; Bimbo a Clunk Oil - Iwan Griffiths a Luned Mair Jones; 3. Rwdlan II a Mihangel - Rhian Green a Iwan Green. Safon 3 a 4: 1. Judith Glaister; 2. Flash - Morgan ap Gruffydd; 3. Iona Wyn Williams. Tri Dimensiwn: Babanod canol ac uchaf: 1. Martin Neil Morris. Safon 1 a 2: 1. Llewadwen - Sian Alaw Jones; 2. Sunlight - Jacqueline Gibbins; 3. Deilwen - Sioned Mair Jones. Safon 3 a 4: 1. Posey - Nicola Gibbins. Ffotograffiaeth: Oed Ysgol Gynradd: 1. Sunlight - Jacqueline Gibbins; 2. Bobi Jo - Delyth Humphreys; 3. Sali Mali - Delyth Humphreys. Arlunio: Ysgol Feithrin: 1. Mark Templeman; 2. Iwan Parry a Tanya

Louise; 3. Sian Angharad a Huw Evans. Dosbarth derbyn: 1. Elin Dafydd; 2. Meleri Mair; 3. Sian. Heledd a Dewin Dwl - Llyr Morris. Babanod canol ac uchaf: 1. Iona Wyn; 2. Eifion Pritchard a Nic Nicol - Meilir Rhys; 3. Gerallt Hughes a Martin Morris. Safon 1 a 2: 1. Dylan Yandell; 2. Amanda Afal a Clunk Oil - Sioned Mair Jones a Luned Mair Jones; 3. Sunlight - Jacqueline Gibbins a Nicola Proudley Williams. Safon 3 a 4: 1. Iwan Rhys Owen a Lili Lon - Siwan Eurgain Humphreys; 2. Nicola Gibbins a Spotty a Square Eyes a Popeye - Mathew Wyn Williams; 3. Iwan Parry - Dwi Rêl Idiot, Iwan Grinvalds. Rhyddiaith: Safon 1 a 2: 1. Twm Twm - Rhian Medi Green; 2. Loli Rhes - Sioned Mair Jones; 3. Bryan Robson - Carwyn Machno Lloyd; a Plwmsan - Iwan Aled Green. Safon 3 a 4: Carnac - Siwan Eurgain Humphreys; 2. Bryni - Nicola Louise Gibbins. Barddoniaeth: Safon 1 a 2: 1. Siwgalw - Luned Mair Jones; Safon 3 a 4: 1. Mr Spock - Dylan Lloyd Jones. Unawd Ysgol Feithrin a Dosb. Derbyn: 1. Heledd Roberts; 2. Sian Green; 3. Elin Dafydd; 4. Guto, Meleri, Deion. Adrodd Ysgol Feithrin

(parhad tud 5 colofn 3)

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON LLANRUG (ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175

DIWRNOD YSGOL YN Y FLWYDDYN 2050

(Stori fuddugol Lowri Angharad Roberts, y prif lenor ifanc)

Deffrais wrth i fysedd hir yr haul dreiglo'n dyner ar fy ngwyneb gan fy nghosi'n gynnes a charedig. Gwenais yn ddioglyd wrth dyrchio'n ôl i waelodion y gwely. Ceisiais syrthio'n ôl i gysgu ond i ddim pwrpas, roedd rhaid i mi godi a hithau'n chwech yn barod, byddai ngwersi ysgol yn dechrau mewn hanner awr. Agorais y llenni'n led pen agored, tipyn o chwith ydi gweld y ddaear o gwmpas fy nghartref mor noeth a chrin wedi i ymbelydredd ddianc o'r atomfa gerllaw. Llosgwyd bob tyfiant oddi ar y tir, lladdwyd rhan fwyaf o'r anifeiliaid o fewn cylch o ugain milltir, gadawyd llawer mewn poen enbyd a ninnau heb wybod yn sicr beth yw gwir effeithiau'r ddamwain arnom, amser a ddengys hynny.

Cerddais i ffwrdd o'r ffenestr, ac i lawr y grisau i chwilio am frecwast. Wrth gwrs tabledi a gawn, gan ein bod wedi arfer â hwy mwyach. Prin yw'r cof o'r grawnfwydydd, yr arferwn eu cael i frecwast, atgof yn unig yw'r rhain gan fod ymbelydredd wedi difa rhannau helaeth o'r tir, a'r cynnyrch yr arferwn gael ohono.

6.30 a.m. roedd rhaid i mi fynd at y cyfrifiadur. Tiwniais i'm gwersi boreol a cheisio canolbwyntio ar lais melfedaidd, di-ffrwt a diflas yr athrawes. Dynes dal, fain yw'r athrawes, a'i gwallt glas parchus wedi lapio'n gywrair ar ei chorion. Tydw i erioed wedi cyfarfod y ddynes, na dim un o'm ffrindiau sy'n yr ardal ac yn cael yr un gwersi. Dim ond llun oer ar y sgrin ydi hi i mi. Rydw i'n casau ei gweld yn syllyn hy arnaf. Ei llygaid tywyll, cyfrinachol a chyfrwys yn rhythu'n geg agored a'i spectol yn balansio hanner ffordd i lawr ei thrwyn, a oedd yn bigog fel her gwrach. Ei siwt dynn ddu yn dangos ei ffigwr tenau, esgyrniog a'i hewinedd wedi'u peintio'n rhad a di-chwaeth. Parablai'n ddi-stop gan fy moddi â rhifau a symaui cymhleth, ffeithiau di-ddiwedd a phentyrrau o waith cartref anioddefol. Teimlwn fel troi sianel yn aml, ond dioddef sesiwn dwy awr sydd rhaid.

8.30, Sesiwn ymarfer corff nesaf, byddai'r cerbyd awyr yn galw heibio mewn pum munud. Rhuthrais i nôl fy ngwisg nofio a'm ffyn hoci yn barod a sefyll ar y tô i ddisgwyl fy ffrindiau. Byddem yn cael ymarfer corff bob bore'n feunyddiol, i gadw'r ymennydd yn fywiog ag effro, un peth da am y system addysg, er ein bod yn gwybod y gallem gael ein trengi unrhyw ddiwrnod gan ynni niwcliar. Cyrhaeddodd y cerbyd ar union amser a llamais iddo'n falch o weld fy ffrindiau eto. Teimlwn yn falch o gael cwmni diddan, diddorol a naturiol y plant yn lle stiffni ffug y cyfrifiadur. Newidiodd pawb i'w gwisogedd nofio a phlymio i ddyfnder y dŵr crisial. Pwll nofio tanddaearol ydyw wrth gwrs oherwydd effaith gwres diffyg 'ozone' ac ymbelydredd parhaol. Oherwydd hyn mae distawrwydd rhyfedd yn y pwll a chawn deimlad o ymlacio llwyr. Cawsom ambell ras a nofiasom gant hyd er mwyn ymarfer ein sgiliau. Yna sgrechiodd flip fod yn rhaid i ni fynd allan. Sychais yn yr ystafell awyr a gwisgo cit yr hoci dwy ffon. Hoci dwy ffon yw'r gêm fwyaf poblogaidd yn y byd ar hyn o bryd ac rydym yn gwirioni arni. Soniai dad mai yn ei blentyndod ef rygbi a pheldroed oedd y ffefrynau; anghyffredin iawn yw'r rheini erbyn rwan.

Wedi cael gêm o hoci dwy ffon, ble mae gennych ddwy ffon, un i amddiffyn ac un i ymosod, aethom adref wedi ymladd. Tila iawn oedd y sgwrs ar y ffordd adref a theimlai pawb fel cysgu.

11.30 agorodd drysau 'automatig' y tŷ ag i mewn i'r gegin a mi i gael fy nghinio. Chwiliais drwy'r bwyd powder yn y cwpwrdd, digon ohono, ond yr un yw'r blas, neu di-flas a dweud y gwir. Llysiau sych yw prif sylwedd y bwyd, a buaswn wedi gwneud rhywbeth am gael tafell o'r bara yr arferwn gael pan yn eneth fach. Ond dyna ni, tywalltais y dŵr berwedig ar y bwyd a bwyta llond fy mol. Yna cerddais i'm gwely'n ddioglyd, byddai gwres canol dydd yn rhy boeth i mi, roedd mor anghyffredin. Teimlwn fy llygaid yn trymhau a syrthiais i gysgu.

3.30, gorffennodd siestar' pnawn, ac es yn ôl at y cyfrifiadur er gwaetha'r gwres llethol. Bum yn gweithio'n ddiwyd a physur, gan geisio taclo gwaith cartref y diwrnod. Cefais wers arlunio a mwynheais yn fawr gyda'r dechnoleg ddiweddaraf o beintio ar sgrin y cyfrifiadur ac yna'i gael wedi ei ddatblygu mewn unrhyw faint.

Yna canodd gloch y drws, agorais ef yn 'automatig' gyda botwm o'r cyfrifiadur i weld mam a dad yn wên o glust i glust o gael gorffen gwaith yn yr atomfa. Cawsom bryd sbesial o ffa soia tomato heno ac yna disgyn i feddaldod cadair a diogi o flaen y teledu. Bu mân siarad rhyngddom a chanodd y ffôn un neu ddwy o weithiau ond heblaw hynny diog iawn fu'r noson.

Llusgais i'm gwely gan feddwl mor ddifals y bu'r diwrnod i mi, dim byd gwahanol i ddod a'r diwrnod cynt. Ond pwy a wŷr am fory, pwy wŷr.

RHAGOR O GYNNYRCH

Buddugol ar y Gân Rydd yn Eisteddfod Bentref Llanrug oedd Hugh Thomas, 'Gwenallt', Llanrug.

Y Steddfod Bentref

Fe godwyd Pwyllgor newydd i Drefnu'n Steddfod ni Yr hen un wedi sorri Gan adael dau neu dri.

Dewiswyd Beirniad Canu Miss Puw o Flaen-y-Cwm Ei heiddo hi yw'r piano Er bod ei chlyw yn drwm.

Cawn degwch ar yr adrodd Mae'r Ficer yn ddyn call Pob Sul yn dweud o'r pulpud Does neb yn well na'r llall.

Wil bach yn syth fel brwynen yn canu, Cloch-y-Llan Proffeswr wedi ddyssgu 'Wel', dyna ddywedai Fam.

Anghofiodd Gwen ei geiriau Wrth adrodd y Rhodd-mam Ac yn ei ffwdan gwaeddodd Beth nesaf, "O go dam".

Enillodd Nel am gwcio Chwe sgon o aeth yn chwith Rhai blasus meddai'r Beirniad, Dan destun Bara Brith.

Ar ganu gyda'r tanau Cynigiodd Ned y Ddôl Yr Alaw wedi gorffen Ac yntau mhell ar ôl.

Daeth chwech i'r brig am Awdl Am ganu cân i Ffrainc Ac yn lle cadair rhoddwyd Pob un yn rhes ar fainc.

Côr Meibion yn terfynu Ac ynddo ferch mewn het Un cymysg meddai'r beirniad Mae'n 'Equal Rights', medd Bet.

A dyna'n fyr oedd hanes Ein Steddfod Bentref ni Gwneud elw eto eleni Mewn ffrindiau, hwyl a spri.

Y Limrig buddugol

Ar lethrau Cefn Du rhyw ben bore A phawb yn eu gwla yn y pentre Roedd Twm ar ffordd 'nôl Wedi andros o 'Bub Crawl' A'i drowsus i lawr am ei ffere.

Dafydd Owen

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Telyneg: Rhos

Pan bigodd y nos ei bys Ar nodwyddau'r barrug, Ei thrwmgwsg ymlwybrodd Trwy geginau agored A lloffydd diamddiffyn Glanffynnon ac Afon Rhos.

Yn stond, Dan ddewiniaeth y sêr, Fe rewodd teledai, Ceir, cŵn, cathod, Dynion Rhag tarfu Ar y tragwyddoldeb mawr.

Nes i gusan Haul y bore Hysio'r hud, Gan stwyrrio canfasau, Berwi tegellau, Ac ail gaethiwo clociau Glanffynnon ac Afon Rhos.

John Roberts, Bedw Gwynion

Buddugol ar yr Englyn Ysgafn

Siom

Yn hwyr danfonais stori, un farwaidd At Feuryn, llith giami, Wan, herciog - efo twrci; Hen foi sâl, ail gefais i.

John Roberts, Bedw Gwynion.

CANLYNIADAU - PARHAD

a dosb. derbyn. 1. Meleri a Heldd; 2. Elin a lolo a Sian; 3. Guto a Llyr. Unawd cyn oedran ysgol: 1. Gemma. Unawd Babanod canol ac uchaf: 1. Lisa; 2. Meilir Jones ac Einir Roberts; 3. Awen Humphreys; 4. Michelle. Adrodd Babanod canol ac uchaf: 1. Iona Williams; 2. Meilir Jones; 3. Gwion Iwan. Unawd Safon 1 a 2: 1. Rhian; 2. Sioned; 3. Luned; 4. Lunwen, Ellen. Adrodd Safon 1 a 2: 1. Delyth; 2. Gwenan; 3. Jacqueline. Unawd Cerdd Dant (Plant Ysgol Gyn.): 1. Zera Thomas; 2. Llyr Sion Roberts; 3. Rhian Green; 4. Luned, Beverley, Siwan. Adrodd Safon 3 a 4: 1. Iona; 2. Siwan Humphreys; 3. Zera Thomas. Unawd Piano (safon 3 a 4): 1. Zera Thomas; 2. Catrin Hughes; 3. Catherine Griffith. Unawd unrhyw offeryn heblaw pres, piano a recorder (Ysgol Gynradd): 1. Llyr Sion Roberts a Rhian Green cyfartal. Unawd Safon 3 a 4: 1. Zera Thomas; 2. Llyr Sion Roberts; 3. Delyth Morris. Unawd Offeryn Prés (Ysgol Gynradd): 1. Luned Jones. Parti Dawns Werin (Ysgol Gynradd): 1. Rabscaliwns y Rhug, Parti Moelywn; 2. Parti Disgwylfa, Troedyn y Llan; 3. Jac y do. Parti cyd-adrodd (Ysgol Gynradd) 1. Y Dinosoriaid. Parti Unsain (Ysgol Gynradd). 1. Bedw Gwynion; 2. Parti Annette; 3. Tenoriaid Talybont, Llongwyr Llong Llanrug.

CYFARFOD YR HWYR

Rhyddiaith: Blwyddyn 1 a 2: 1. Lows - Lowri Roberts

Barddoniaeth: Blwyddyn 1 a 2: 1. Lows - Lowri Roberts; 2. Gwenynen - Nia Griffiths; 3. Hyrbil - Nia Griffiths; 4. Snoopy - Catrin Thomas. Rhyddiaith: Blwyddyn 3 a 4: 1. Sybil - Ffion John. Barddoniaeth blwyddyn 3 a 4: 1. Fi - Bryn C. Jones. Arlunio: Blwyddyn 1 a 2: 1. Iolo Eilian a David Gareth Morris; 2. Snoopy - Catrin Thomas, Antur - Owain ap Gruffydd; 4. Ceryl Mair. Blwyddyn 3 a 4: 1. Disco Duck - Adrian Evans; 2. Fi - Bryn Jones. Agored: Cywilydd - Dafydd Wh. Thomas; 2. Celt - Ronnie Evans. Tri Dimensiwn: Blwyddyn 1 a 2: 1. Blurr - Owain ap Gruffydd; Blwyddyn 3 a 4: 1. Fi - Bryn C. Jones. Unaawd dan 16 oed: 1. Ffion John; 2. Ffion Orwig. Adrodd dan 16 oed: 1. Ffion Orwig; 2. Nia Griffith. Deuawd dan 16 oed: 1. Tammy a Lowri. Grŵp Offerynol. 1. Pedwarawd Prés; 2. Grŵp Llinynol. Ceginio: Blwyddyn 1 a 2: 1. Moelyn - Iolo Eilian; 2. Quavers - Gwenan Mair Roberts, Snoopy - Catrin Thomas; 3. Jabas - Owain ap Gruffydd, Rwbath - Dyfed Thomas. Blwyddyn 3 a 4: 1. Disco Duck - Adrian Wynne Evans. Agored Merched: 1. Heulwen - Doris Evans; 2. Martha - Anwen Evans, Lili - Olwen Hughes; 3. Ceri - Menna Williams. Dynion: 1. Egon a Celt -

Iwan Roberts a Ronnie Evans; 2. Clegir - Dafydd Wh. Thomas. 3. Blodyn a Cadwaladr - John Evans a Iddwal Williams. Gwnio: Blwyddyn 1 a 2: 1. Clown - Nia Griffiths. Agored: Y Gochen - Bethanne Williams. Gosod Blodau: Agored: 1. Moelyn - Eryl Roberts; 2. Margiad - Enid Thomas.

Unawd Piano dan 16: 1. Gwenan Mair Roberts; 2. Lowri Roberts; 3. Ffion Orwig. Gwin Cartref: Agored 1. Huwbert - Margaret V. Parry; 2. Lola - Bethanne Williams; 3. Bethan Mai - Margaret V. Parry. FFotograffiaeth: Oed Ysgol Brynrefail: 1. Iolo Eilian a Disco Duck. Agored: 1. Islwyn Roberts; 2. Frank Green; Islwyn Roberts. Gweu a chrosio: Oes Ysgol Brynrefail: 1. Minim - Gwenan Mair Roberts; 2. Elan - Ceryl Mair Roberts a Donna Roberts; 3. Siw, Mabli - Ceryl Mair Roberts. Agored: 1. Minnie - Ann Gibbins; 2. Miandan ac Edafedd - Eirianwen Thomas a Helena Parry; 3. Shiani - Helena Parry. Unawd unrhyw offeryn heblaw piano a phrês dan 16: 1. Gwenan Mair; 2. Ffion Orwig; 3. Lowri Williams; 4. Lowri Angharad. Unawd ar unrhyw offeryn prês dan 16: 1. Bryn; 2. Suzanne; 3. Gwion a Sian. Cyflwyno Sgets dan 16: 1. Y Joban newydd; 2. Yr Ysbryd; 3. Camgymeriad. Unawd Cerdd Dant dan 16: 1. Ffion Orwig; 2. Ffion John. Cân Werin Agored: 1. Ffion Orwig. Dawnsio Disgo i grŵp neu unigolyn: 1. Yr Ysbrydion; Cystadleuaeth Cân Fodern Gymraeg: 1. Ffion John.

Beirniadaeth Testunau Llên agored: Englyn: 1. Ap Dafydd - John Roberts. Englyn Ysgafn: Ap Dafydd - John Roberts. Telyneg: Ap Dafydd - John Roberts. Cân Rydd: 1. Cae'r Bledwyn - Hugh Thomas; 2. Glaslyn - Mrs Butler. Limerig: 1. Sanatogen - Dafydd Owen; 2. Bardd Cocos yr ail - Emrys Owen; 3. Glaslyn - Mrs Iola Butler. Parodi: 1. CCC - Mair Lloyd Hughes; 2. Sanatogen - Dafydd Owen; 3. Glaslyn - Mrs Iola Butler. Rhyddiaith: Ysgrif: 1. Dyfal Donciwr - Mrs Mair Humphreys. Stori Ddigrif: 1. Clegir - Dafydd Whiteside Thomas; 2. Aelod o'r Clwb - Mrs Mair Humphreys. Creu Brawddeg: 1. £1 o'r wobri i Glaslyn - Mrs Iola Butler. Cystadleuaeth Arbennig i rai dros 60 oed: 1. Ddoe'n ôl - Mr Robert Williams; 2. Yr Hen Chwarelwr - Mr Emrys Owen.

Cystadleuaeth y Gadair: 1. Dafydd Wh. Thomas.

Tlws yr Ifanc: Lowri Roberts

Unawd unrhyw offeryn, dros 16 oed. 1. David Jacobs. Parti Canu Lleol: 1. Parti Ni; 2. Afon Rhos; 3. Parti Llan. Emyd dros 50 oed: 1. Mair Jones; 2. Ceridwen Williams. Deuwad dros 21 oed: 1. Menna a Mair. Unawd dros 21 oed: 1. Menna

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, Waunfawr 626.

YR EGLWYS: Nos Sul, Rhagfyr 6ed, am 7.30 o'r gloch cynhelir Cyngerdd yn Eglwys Sant Ioan. Y tâl mynediad fydd £1. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at y costau a dreuliwyd yn ddiweddar i atgyweirio'r Eglwys. Estynnir croeso cynnes i bawb, a bydd cyfle ar y noson i weld yr Eglwys ar ei newydd-wedd. Ceir rhagor o fanylion yn nes at y dyddiad.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref o'r Sefydlad yn Festri Croesywaun o dan arweiniad Mrs Pat Parry y Llywydd. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod diwethaf a thrafodwyd y materion perthnasol. Cynhelir Cyngor yr Hydref yn Ysgol John Bright, Llandudno Nos Wener Hydref 30.

Cafwyd noson ddifyr iawn gyda'r wraig wadd, Mrs Mary Vaughan Jones yn dangos sleidiau o'i hymwelid â Phatagonia. Diolchwyd iddi gan Mrs Katie Wyn Jones. Enillodd Mrs Ellen Jones y raffl a roddwyd gan Mrs Morfa Evans. Y Cyfarfod Blynnyddol fydd y cyfarfod nesaf Nos lau 5ed o Dachwedd.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Medi:- 1. £40 Robert Williams, Bryn Meurig; 2. £25 Mrs Barbara Griffiths, 10 Bro Waun; 3. £10 Joanne Greasley, Minafon.

YR URDD: Unwaith eto eleni mae bron i 50 o blant wedi ymuno â'r Urdd yma. Hyd yma maent wedi mwynhau noson o gemau, cwmni difyr Miss Angharad Tomos a hwyf a sbri yn nofio yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon - a diolch i'r rhieni a'u cludodd yno. Bydd cystadleuaeth 'Gwrachod' ar Hydref 28ain ac ar Nos lau, Tachwedd 5ed, yn ôl ein harfer, bydd Coelcerth a Thân Gwyllt ar y cae tu ôl i'r Ganolfan am 6.30 o'r gloch a chŵn poeth, creision, a.y.b.i'w cael yn y Ganolfan wedyn. Croeso cynnes i bawb.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD - DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990:

Bydd Pwyllgor Waunfawr yn lansio eu hapêl gyda Noson Goffi yn y Ganolfan, Nos Wener, Tachwedd 13eg am 6.30 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr Dei Tomos, Nant Peris, Tâl mynediad 30c a 10c i blant. Bydd amryw o stondinau a byddwn yn ddiolchagr am unrhyw rodd, e.e. cacennau, tegannau, tombola a chynnyrch cartref. Mae taregdd Waunfawr yn £2,250 ac os hoffech gyfrannu trwy gyfamodi, cysylltwch â Haydn Jones, Rhandir Mwyn, am ragor o fanylion.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Medi: 1. Edgar Owen, Lloches; 2. Huws Roberts, Pant Teg; 3. Gwilym Hughes, Tref Eilian.

CYDYMDEIMLWN: yn arw a Mrs Mary Williams, Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli gŵr sef Mr Goronwy Williams.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion at Mr Joseff Jones, Gadda, sydd unwaith eto yn yr ysbty.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall bod y canlynol adref o'r ysbty ac yn gwella, sef Mrs Morris Lewis, Tŷ Newydd, Mrs Barbara Griffiths, Bro Waun, a Mrs Pat Parry, Ffridd Felen. Dymuniadau gorau iddynt.

LLONGYFARCHIADAU: Mae Mrs Katie May Jones, Gorwel, erbyn hyn wedi ymddeol o'i swydd yn Adran Prifffyrdd a Thrafnidiaeth y Cyngor Sir ar ôl blynnyddoedd maith o wasanaeth. Dymunwn pob

hapusrwydd a iechyd iddi yn y dyfodol. Daeth y penillion yma i law gan hen ffrind:

Yn unol a'r rheol
Daeth yn amser i Kate ymddeol
Brenhinse Swyddfa'r Cyngor Sir
Cyfranodd iddo wasnaeth hir.

Medrus a chydwybodol yn ei gwaith
Hi fu i'w bos, am flynyddoedd maith
Er iddi gyfarfod llawer crintach
Diogel fyddai pob cyfrinach.

Cyflym ei meddwl a'i llaw
A'i pharablu sionc di-daw
Ymwelydd cyson a phawb mewn trallod
Am gofio pobl, yn wir mae'n hynod.

Chwith fydd hebddi yn y swyddfa
I'r ifanc bydd y bwch yn para
Ei chymorth parod, o'i phrofiad maith
Ysgafnodd lawer diwrnod diflas o waith.

Daw i ti yn sicr ar yr achlysur
Atgofion hapus fydd i ti'n gysur
Bydded i ti iechyd, a llawen gwmni
Ddymunaf Kate i ti a Dewi.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o dymor Merched y Wawr yn y Ganolfan nos lau, Medi 24ain. Y llywydd oedd Mrs Alma Jones a chroesawodd bawb i'r cyfarfod gyda un aelod newydd sef Mrs Gwyneth Griffiths, Llys Helen. Roedd yn falch hefyd o groesawu Mrs Katie Wyn Jones ar ôl ei gwaeledd. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Betty Hughes sydd yn awr yn Ysbyty Eryri.

Cafwyd orig ddifyr yng nghwmni Mr Rol Williams. Rhoddodd hanesion o bapurau lleol ddiwedd y ganrif ddiwethaf a dechrau y ganrif hon. Diolchwyd iddo gan Miss Bessie Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Cadi Jones ac enillwyd hi gan Mrs Katie Wyn Jones. Cynhelir y cinio Nadolig yng Ngwesty Victoria, Llanberis ar Dachwedd 26ain. Pris £7.50 - gofynnir i bawb sydd yn bwriadu mynd ddod a'r arian i'r cyfarfod nesaf ar Hydref 29ain, pryd y ceir sgwrs am Antur Waunfawr gan Mr Hywel Vaughan Evans.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR: Mae aelodau'r cyngor unwaith eto wedi mynegi pryder ynghylch dyfodol swyddfa heddlu'r gymuned. Maent yn poeni y gallai goruchwyliaeth 24 awr gael ei symud o'r pentre am byth. Mae'r cyngor nawr yn disgwyl ateb oddi wrth Brif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru.

Trefnwyd cyfarfod rhwng aelodau'r cyngor â dirprwyiaeth yn cynrychioli pwyllgor estyniad i'r Ganolfan. Cyn y bydd y Swyddfa Gymreig yn cytuno i drosgwlyddo arian ar gyfer y cynllun rhaid i'r cyngor cymuned hefyd gyfrannu eu harian hwy.

Mae'r cyngor yn dal i ddisgwyl ateb oddi wrth yr Awdurdod Dŵr yn dilyn y llifogydd sydd ar gynnydd o ffosydd y cylch.

Dymuna'r cyngor hefyd hysbysu pawb fod cau llwybrau cyhoeddus yn anghyfreithlon ac na ellir gwenud hynny heb orchymyn llys. Mae hyn yn dilyn cwyn a wnaed i'r cyngor gan un o'r aelodau.

Etholwyd Humphrey Roberts i gynrychioli cyngor ar bwyllgor estyniad y Ganolfan a bydd Eurig Wyn yn cynrychioli'r cyngor yng Nghynhadledd Cymreig y Cynghorau Bro a Thref.

Caeathro: Mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr cytunwyd y dylid rhoi blaenoriaeth ar frys i'r gwaith sydd ei angen ar y ffordd yn Tyddyn Bach. Mae'r cyngor am bwyso hefyd am wella'r palmant ger Modurdy Gwalia. Caeathro.

YR YSGOL: Ar ôl gwasanaethu yng nghegin yr ysgol am dros dair

mllynedd ar ddeg daeth amser i Mrs Betty Griffiths ymddeol. Mewn cyfarfod arbennig yn yr Ysgol pnawn Gwener 16ed o Hydref, talwyd teyrnged iddi am ei gwasanaeth a dymunwyd ymddeoliad hapus iddi gan y Prifathro Mr Leslie Jones a Mr Edgar Owen, Cadeirydd y Rheolwyr. Trosglwyddwyd siec iddi gan Louise Giles ar ran y plant, yr athrawon a'r rhieni. Cyflwynodd Mrs Alun Edwards, cogyddes yr Ysgol anrheg iddi hefyd ar ran Staf y Gegin y glanhawyr a ffrindiau.

EISTEDDFOD ARDAL WAUNFAWR: Cynhaliwyd Eisteddfod Ardal Waunfawr, ddydd Sadwrn Hydref 10ed yn y Ganolfan. Croesawyd Mrs Myra Griffiths, Penisarwaun a Mr Ifan Lewis, Lerpwl fel cadeiryddion. Miss Deilwen Crump, Caernarfon oedd y beirniad cerdd a Mrs Madge Hughes, Llandwrog oedd yn beirniadau'r adrodd a'r llên; gyda Miss Anita Jones, Brynrefail, Mr Islwyn Jones, Llanrug a Mr T.A. Thomas, Waunfawr yn beirniadu'r coginio, gwaith llaw, arlunio, ffotograffiaeth a gwaith coed. Mr Brian Williams, Pontllyfni oedd y cyfeilydd. Arweiniwyd y cyfarfod gan Mrs Irene Reoberts, Mrs Cadi Jones, Mr John Huws, Mr Gareth Jones a Mrs Alma Jones, gyda Llinos Cadwaladr a Carys Jones yn cynorthwyo gyda'r plant lleiaf.

Bu cystadlu brwd yn ystod y dydd a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd. Dyma'r canlyniadau:-

Cyfarfod y Prynhawn

Adrodd:

Dan 4 oed: 1. Ifan Glyn; Ifan Morgan. 4-6 oed: 1. Elin; 2. Lowri a Sioned; 3. Iolo ac Aled. 6-8 oed: 1. Gareth; 2. Edryd. 8-10 oed: 1. Heddu; 2. Huw; 3. Bethan. 10-12 oed: 1. Elin; 2. Delyth; 3. Kailey. Parti Adrodd dan 12 oed: 1. Parti Ffion; 2. Parti Annwen.

Cerdd

Dan 4 oed: 1. Robert; 2. Ifan Glyn; 3. Ifan Morgan; 4-6 oed: 1. Sioned; 2. Lowri; 3.

Aled. 6-8 oed: 1. Heledd; 2. Gareth a Lowri; 3. Rhian, Manon ac Edryd. 8-10 oed: 1. Heddu; 2. Huw; 3. Kristy. 10-12 oed: 1. Delyth; 2. Annwen; 3. Meilir. Deuawd dan 12 oed: 1. Annwen a Kailey; 2. Kity a Heledd; 3. Delyth a Heddu. Parti canu dan 12 oed: 1. Parti Gofaint; 2. Parti Alison. Cân actol neu sgets dan 8 oed: Cowbois ac Indiaid; 2. Amser Gwely. 8-12 oed: 1. Plant yr Ysgol. Unawd recordydd dan 10 oed: 1. Huw; 2. Heddu; 3. Carolyn. 10-12 oed: 1. Elin; 2. Meilir; 3. Delyth. Unawd offeryn cerdd dan 12 oed: 1. Elin; 2. Delyth; 3. Meilir.

Llên

Safon 1: 1. Lowri; 2. Kevin; 3. Manon, Valerie, Alison. Safon 2: 1. Arwel; 2. Marcus; 3. Huw. Safon 3: 1. Andrew; 2. Ceiron; 3. Carolyn a Heddu. Safon 4: 1. Geraint; 2. Annwen; 3. Iona.

Arlunio

Ysgol Feithrin: 1. Dewi; 2. David; 3. Sioned. Babanod 1: 1. Arran; 2. Elin; 3. Lowri a Helen. Babanod 2: 1. Heledd ac Elin; 2. Aisha a Derfel; 3. Emma a Gareth. Safon 1: 1. Simon; 2. Lowri a Valerie; 3. Mathew. Safon 2: 1. Gwyn; 2. Ffion; 3. Trudi a Huw. Safon 3: 1. Deian a Andrew; 2. Carolyn ac Elain; 3. Ceryl. Safon 4: 1. Phillip; 2. Kailey; 3. Eilir.

Gwaith Llaw

Babanod 1: 1. Llion; 2. Eleri; 3. Elin. Babanod 2: 1. Rebecca a Aisha; 2. Heledd ac Emma; 3. Gwenllian ac Elaine. Safon 1: 1. Manon; 2. Simon a Guy; 3. Amber a Lowri. Safon 2: 1. Marc a Ffion; 2. Trudi; 3. Llion. Safon 3: 1. Sharon; 2. Ceiron; 3. Ceri. Safon 4: 1. Geraint; 2. Kailey; 3. Anwen.

Cyfarfod yr Hwyr

Adrodd

12-15 oed: 1. Rhys Sion. 15-18 oed: ac yn derbyn Cwpan pwyllgor yr Eisteddfod: 1. Nan Wyn; 2. Euros. Darllen darn ar y pryd "Tydi Bywyd yn Boen" 12-18 oed: 1. Nan Wyn; 2. Rhys; 3. Euros. Darllen darn heb ei atalnodi: 1. Norman Williams. Adrodd darn digrif dros 18 oed: 1. Grace Dawson. Adrodd dros 18 oed: 1. Elena Jones. Parti Adrodd dros 18 oed: 1. Genod Ni.

Cerdd

12-15 oed: 1. Rhys a Rhodri; 2. Nia. 15-18 oed: ac yn derbyn cwpan Mr H.O. Jones. 1. Elli; 2. Sian; 3. Karen. Unawd Cân werin 12-18 oed ac yn derbyn cwpan Mr Alun Williams: 1. Rhys. Grŵp pop dan 18 oed: 1. Chwilod 1; 2. Chwilod 2. Deuwad 12-18 oed: 1. Karen a Sian. Cân Actol neu sgets dan 18 oed: 1. Yr Ysgol; dros 18 oed: 1.

ENILLWYR IFANC EISTEDDFOD WAUNFAWR



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.



DEWIS EANG O
WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

RHAGOR O ENILLWYR



Iwan Ellis



Elliw Iwan



Rhys Siôn



Nan Wyn

Karate Kids; 2. Y Plismyn; 3. Cowbois ag Indiaid.

Emyn dros 40 oed: 1. Wmffra; 2. John. Unawd Cân Werin dros 18 oed: 1. Wmffra. Unawd Gymraeg dros 18 oed: 1. Wmffra. Unawd offeryn cerdd 12-15 oed: 1. Kevin; 2. Ella Wyn; 3. Gwennan. 15-18 oed: 1. Iwan; 2. Euros. Gwobr Mr Leslie Jones am yr offerynwyr mwyaf addawol dan 18 oed: Iwan Ellis. Unwad piano 12-15 oed: 1. Osian; 2. Gareth; 3. Dylan. 15-18 oed: 1. Iwan; 2. Karen; 3. Euros a Sian. Gwobr goffa Mrs Rear am y cystadleuydd mwyaf addawol ar y paino dan 18 oed: Iwan Ellis. Llên

11-15 oed: Stori neu Ysgrif: 1. Rhys Siôn; 2. Elin Gwilym. 15-18 oed: Stori neu Ysgrif: 1. Euros Wyn; 2. Elliw Haf. Stori Fer; Marian Iwan; 2. Marian Iwan; 3. Joy Glyn. Stori neu Ysgrif i'r dysgwyr: 1. Margaret Eaglestone. Hunangofiant cadair: 1. Irene Roberts; 2. Bethan Williams. LLinell goll: 1. Dewi Jones. Parodi: 1. Mrs Gweneirys Jones a Mrs Sylvia Jones.

Arlunio
11-15 oed: 1,2, a 3ydd Rhodri Siôn. 15-18 oed: 1. Euros Wyn. Ffotograffiaeth: 1. Alfred Jones; 2. John Cadwaladr. Gwaith Llawn

11-15 oed, gwaith coed: 1 a chyfartal ail: Nia Llwyd. Trefniant o flodau ffres: 1 ac ail, Mrs K.W. Jones. Trefniant o flodau sych neu sidan: 1 ag ail, Mrs Glenys Williams.

Siwmpwr hefo patrwm: 1. Mrs K.W. Jones; 2. Elena Jones a Barbara Griffith; 3. Elena Jones a Grace Dawson. Balacava: 1. Llinos Cadwaladr. Gwnio dilledyn: 1. Mrs. K.W. Jones.

Coginio
12-15 oed 6 busen jam: 1. Rhys a Rhodri; 2. Nia. Spwng wedi ei haddurno: 1. Glenys Williams a Llinos Cadwaladr; 2. Irene Roberts; 3. Jill Brown. Cream Slices: 1. Irene Roberts; 2. Joy Glyn. Trifle: 1. Llinos Cadwaladr a Jill Brown; 2. Heulwen Jones. Turkish Delight: 1. Beryl Jones; 2. Beryl Jones; 3. Beryl Jones a Jill Brown.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion, 871327.

DYMUNIADAU DA i Eilian a Gwen yn eu bywyd priodasol. Maent wedi ymgartrefu yng Nghlwyd.

LLONGYFARCHIADAU i Sian ac Alan Williams, Gwastadnant ar enedigaeth eu mab bach Robart, wŷr cyntaf i Mr a Mrs Stanley Morgan, Llwyn Bedw, Bethel.

GOBEITHIWN am wellhad buan i Mrs Rhian Pritchard, Tŷ Isaf ar ôl llaw-driniaeth feddygol yn yr Ysbysy

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

CYMDEITHAS Y BEIBLAU: Ddyd Sul, Hydref 4ydd, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas yn Neiniolen. Yng nghyfarfod y prynhawn yng nghapel Cefnywaun cafwyd cyfarfod graenus yng nghwmni aelodau Ysgolion Sul y dosbarth. Cynrychiolwyd Ysgol Sul Brynrefail gan Einir, Catrin ac Owain Gwyn, Nicola Houston, Glenda a Paula Walters, Rhian Davies, Iola Davies, Marian Jones, Mrs Ifanwy Jones, Mrs Mair Davies, Mrs Carol Houston a Miss Lowri P. Roberts. Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu yn yr hwyr yng Nghapel Libanus, Clwtybont dan arweiniad Miss L.P. Roberts. Llywyddwyd gan y Parch Trefor Lewis a chymerwyd rhan gan aelodau o gangen Merched y Wawr, Deiniolen.

SEIAT DOSBARTH: Nos Fercher, Hydref 7ed daeth nifer dda ynghyd i gyfarfyddiad o Seiat Dosbarth Padarn yn Festri Brynrefail. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch W.R. Williams a chymerwyd y rhannau arweiniol gan Mr D. Glynne Owen, Ponrhythallt. Cafwyd agoriad cynhwysfawr a diddorol i Faes Llafur yr Ysgol Sul am eleni sef Llyfr Daniel a'r Efengyl yn ôl Marc gan y Parch Trefor Lewis. Cafwyd sylwadau pellach gan Mr Glynne Owen, Parch W.O. Roberts, Mr J. Orwig Jones a'r Parch John Morris ynghyd â'r llywydd.

Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Parch W.O. Roberts ar gael ei ethol i draddodi'r Cyngor yng Nghymdeithasfa'r Gogledd y flwyddyn nesaf. Diweddwyd y cyfarfod gan y Parch W.R. Williams.

LLONGYFARCHIADAU: Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs H.J. Jones, 7 Trem Eiliam ar ddod yn hen nain unwaith eto am y chweched tro. Ganwyd mab, Tomos Arthur, i'w hwyres Eryl a'i phriod Neal yn

Wendover Swydd Buckingham.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Nos Lun, Hydref 19eg cyfarfu'r gangen dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Treuliwyd rhan gyntaf y cyfarfod yng nghwmni un o'r aelodau Mrs Jennie Roberts, Glandwr, yn adrodd ei hymwelid â gwlad Israel y gwanwyn diwethaf. Cafwyd adroddiad cryno o'r daith a chawsom ein harwain i fannau diddorol y Beibl a chael gwedd newydd ar y cefndir o ganlyniad i argraffiadau personol Mrs Roberts. Diolchwyd iddi gan Miss L.P. Roberts. Yn dilyn cafwyd orig bleserus gyda Mrs Pat Jones yn paratoi a choginio danteithion arbennig ar gyfer popty microwave. Roedd y cyfan yn tynnu dŵr o ddannedd ac yn wledd i'r llygad, a thalwyd diolch gan Mrs Rhian Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Blodwen Hughes a Mrs Mai Parry. Enillwyd anrheg y mis, rhoddedig gan Mrs Ifanwy Jones, gan Mrs Audrey Roberts. Llongyfarchwyd Mrs Gwyneth Williams a'i phriod leuan ar ddathlu ohonynt eu priodas arian ar Hydref 20ed. Dymunwyd gwellhad i Rhys, ŵyr Mrs Jennie Hughes ar ôl triniaeth yn ddiweddar ac rydym yn falch o ddeall fod Mrs Linda Humphreys, 27 Bro Rhythallt yn gwella'n foddhaol iawn ar ôl bod yn wael am beth amser. Trefnwyd tîm dartiau ar gyfer gêm gyfeillgar adran Arfon a gornest y Siop yn y dyfodol agos. Bydd y trip i'r ynnu yn mynd i Gaer ddydd Sadwrn, Tachwedd 21ain. Mae gwahoddiad hefyd i rai nad ydynt yn aelodau i ymuno â'r rhai sydd wedi cofrestru yn barod i ymuno â'r dosbarth arlunio fydd yn dechrau nos Fercher, Hydref 28ain - cwrs o chwe gwers dwyawr yr un.

BETWS GARMON

Dymuna Mrs Pearl Williams, Parc, ddiolch i bawb am y cydymdeimlad a'r geiriau caredig a'r galwadau ffôn a'r holl gardiau a dderbyniodd yn ei phroffedigaeth o golli ei thad.

ym Mangor, hefyd i Alan Pritchard, Llys Awel sydd mewn ysbyty yn Lerpwl.

APÊL Y SGANIWR: Trosglwyddwyd yswm o £1,400 at Apêl y Sganiwr i Dr. Jim Davies. Cafodd Nant Peris darged o £700 i'w gasglu ac fel y gwelwch mae'r pentref wedi ei ddwblu, a hoffai y Casglwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd yn hael tuag at yr achos.

Wavell Roberts CIGYDD LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 552

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O. YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol



PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

SELWYN MORRIS

Adeiladwr a Threfnydd
Angladdau

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2841

LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir

GAIR GAN Y GOHEBYDD: Credaf fy mod wedi pechu rhai yn ddiweddar trwy adael eu henwau allan o'r Eco. Ni wnes i hyn yn fwiadol. Os ydych eisiau rhoi eich enw neu enw un o'ch teulu, ffrind neu gymydog sydd yn wael, wedi cael profedigaeth, dathlu penblwydd, neu unrhyw achlysur arall a fyddwch cystal a dod mewn cysylltiad â mi sef **IOLA SELLARS**. Mae rhai o ffrwydd yn cymeryd y drafferth o ysgrifennu ataf.

Rwyn sicr fod pawb yn gwerthfawrogi y llafur caled sy'n mynd i mewn i gasglu a threfnu newyddion yr Eco a chymorth nid beirniadaeth sydd yn mynd i sicrhau llwyddiant yr Eco.

DYDD Y CADODIAD: Bydd gorymdaith yn cychwyn o'r llythyrdy (os yw'r tywydd yn ffafriol) am 9.45 bore Sul Tachwedd 8ed ac wedyn cynhelir gwasanaeth yn yr Eglwys am 10.15 ac nid tu allan i'r ganolfan fel arfer. Oherwydd anhawsterau ni chaniateir neb at y Gofgolofn y flwyddyn yma.

DYMUNO'N DDA: Dymunwn yn dda i Mrs Grace Jones, 39 Maes Padarn sydd wedi symud i fyw i Sir Fôn. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad buan i'r canlynol:-

Mrs Betty Roberts, Rock Terrace; Gail Tanfield, Dol Elidir; Mrs Mary Pritchard, Turner Street; Owain Griffiths, Llwyn Piod; Mr Twm Parry, Stryd Yankee; Mr R. Williams, Rhes Fictoria; Mrs Jean Roberts, Maes Padarn, hefyd ei mab Dylan Stephen Owen, Dol Elidir; Mr Bob Jones, Stryd Newton; Eirian Hughes, Maes Padarn; Mrs Betty Owen, Maes Padarn; Mrs Rhianon Roberts, Dol Elidir sydd wedi cael damwain; Mr Brian Roberts gynt o Stryd Turner; Mr William John Roberts, Coed; Mr William Roberts, Ffordd Capel Coch.

PRIODI: Dymunwn yn dda i Iona Roberts, Maes Padarn a Gwynant o Gaernarfon ar achlysur eu priodas yng Nghapel Coch ar Medi 26.

dymuniadau da hefyd i Christine Jones ac Alan Roberts ar achlysur eu priodas ar Hydref 3.

hefyd i Mari Wyn Owen, Coed Mawr a Gwynfor ar achlysur eu priodas ar Hydref 17 yng Nghapel Coch.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Mrs Eluned Jones a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam sef Mrs S Jones, 2 Rhes y Cae.

Hefyd â Mrs Carrie Hughes, 5 Ffordd Padarn yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr sef Mr Roberts Hughes.

Hefyd â Mrs Doris Roberts, Fron Oleu

a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli ei chwaer yng Nghaernarfon.

DYMUNIADAU DA: Dymunwn yn dda i Mrs Nellie Roberts, Noddfa a Mrs Kate Williams, Stryd Turner sydd wedi mynd am seibiant i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau i Mrs Mernie Evans, 66 Maes Padarn ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 1af.

DYWEDDIO: Dymuna Margaret a Gwynfor Jones, 51 Dol Elidir, gyhoeddi dyweddïad eu merch Andrea â Kevin Williams o Gaernarfon. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

GENEDIGAETH: Dymunwn yn dda i Gerlad a Pam Morris, hefyd ei frawd Tony ac Elaine ar enedigaeth eu meibion cyntaf, ac i Ted a Muriel Morris, Maes Padarn am fod yn nain a taid.

Hefyd i Eryl (nee Owen) a Neal ar enedigaeth eu mab cyntaf. Hefyd i Falmai a Gordon Branagan, Maes Padarn ar fod yn nain a taid.

PRIODAS ARIAN: Llongyfarchiadau i mam a dad sef Mr a Mrs Selwyn Pritchard, Madryn, Stryd Newton ar ddathlu eu Priodas Arian ar Hydref 27ain. Pob dymuniad da oddi wrth Rhiannon.

LLONGYFARCHIADAU i Vember a Ken Cheeseman ar achlysur eu Priodas Arian.

Llongyfarchiadau i Dwynwen Roberts coed ar ddathlu ei phenblwydd yn 70 oed oddi wrth y teulu i gyd.

YSGOL FEITHRIN AC APÊL AMBIWLANS LLEOL: Nos Iau Hydref 8ed, yn y Vaynol Arms, Nant Peris cafwyd Noson i drosglwyddo siec o £380 i Mrs Catherine Williams ar ran yr Ysgol Feithrin ac i Iona Jones ar ran yr Apêl Ambiwllans lleol. Codwyd yr arian mewn Noson o adloniant mewn ysgubor ar Fferm Ty Isaf, Nant Peris o dan ofal Plaid Cymru, Llanberis.

Dymunai Mrs Catherine Williams ar ran Ysgol Feithrin y pentref a Betty Hughes, Mair Roberts ac Iona Jones ar ran Apêl Ambiwllans lleol ddiolch o galon i'r trefnwyr a changen Plaid Cymru Llanberis am y rhodd, hefyd i pawb a gyfranodd mewn unrhyw ffordd i wneud y noson mor llwyddiannus. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Alan a Christine, Llain Wen ddiolch i'w teulu, ffrindiau a phawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Gwnaed y deisen gan man Alan sef Doris Roberts, Fron Oleu.

Dymuna Iwan Harding, Min y Coed, Llanberis ddiolch i'w deulu, cymdogion a'i ffrindiau am bob caredigrwydd yn ystod ac ar ôl ei arhosiad yn yr ysbyty. Diolch yn fawr pawb.

Dymuna Mrs Violet Jones (nee Fosse) a'i theulu yn Stevenage ddiolch i'w ffrindiau yn Llanberis am eu cardiau a'r llythyrau caredig a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli Alun.

Dymuna Mary a Dennis Carr, 86 Maes Padarn, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd at Gavin tra bu yn glaf yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Ian a Mary Jones, 4 Ffordd Padarn ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am yr anrhegion gwerthfawr a'r llu cardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn Iwerddon.

Dymuna Nia Pritchard Jones, Minffordd ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am yr anrhegion a'r llu cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen blwydd yn un ar hugain oed.

Dymuna William Roberts, Hyfrydle, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w deulu, perthnasau a ffrindiau pell ac agos am eu caredigrwydd di-flino yn ystod ei waeledd dros y misoedd diwethaf. Diolch hefyd i staff ysbyty Gwynedd a'r Heath Caerdydd, y meddyg a gweinyddesau lleol am eu gofal cyson.

APÊL Y SGANIWR: Ym mis Medi cynhaliwyd noson goffi yn Festri Nant Padarn pryd y casglwyd £325 tuag at Gronfa'r Sganwir yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i chwirydd Nant Padarn a'r bobl ifanc am eu parodrwydd i gynorthwyo i wneud y noson mor llwyddiannus. Diolch i aelodau y Capel, pentrefwyr Llanberis ac eraill am eu presenoldeb ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at yr achos. Diolch yn fawr i bawb.

RAS HWYL, RHEDEG A CHERDDE: Cynhelir y ras uchod dydd Sadwrn 28ain o Dachwedd 1987 am 12.30 o'r gloch. Bydd y Ras yn cychwyn o Westy'r Victoria Llanberis trwy Barc Gwledig Padarn hyd at Fach Wen ac yna i Ddinorwig i lawr hyd lwybry Zig Zags yn ôl i Westy'r Victoria. Bwriad y ras yma yw ceisio codi arian i gael peiriant Cardiac Monitor ar Ambiwllans Gwynedd Caernarfon. Mae'r peiriant uchod yn costio £4,000 a bydd ei wasanaeth i bawb yn ardaloedd Llanberis a'r Cylch. Croeso i bob aelod o'r teulu gymeryd rhan yn y Fenter yma. Y Tâl fydd £1 i oedolion a 50c i blant. Bydd gwobrau i'r enillywr a thystysgrif i bawb am gwblhau'r cwrs gyda chawl a bynsan yn y Vic ar ôl darfod.

Dewch yn llw i gefnogi'r achos.



Paul Jones a Gwyneth Roberts yn arddangos 'Ysgub Ddiolchgarwch' a bobwyd ym Mecws Eryri a'i chyflwyno'n rhodd i Eglwys Sant Padarn gogyfer â'r Wyl Ddiolchgarwch.

EMYN DÔN: Tybed sawl un yn Llanberis sydd wedi sylwi fod un o feibion Llanberis wedi cyfansoddi tŷ yn ein 'Atodiad' Newydd i'r Llyfr Emynu. Enw'r dŷ yw 'Meinir' (704). Robert Owen gyfansoddodd y geiriau.

Ganwyd John Owen Jones yn East Lynne, Stryd Fawr, Llanberis yn 1911. Bu farw yn Corby yn 67 mlwydd oed yn 1978. Cerddoriaeth oedd ei brif ddiddordeb ac yn sicr roedd yn Grisiton i'r carn, wedi gwneud llawer o ffrindiau yn Llanberis a Chorby.

Cymraes o Sir Fôn yw ei weddw Lottie sydd yn byw yn Corby o hyd - ag sydd yn mwynhau gwyliau yn Llanberis o hyd. Bob bendith ar y teulu i gyd.

CYMDDEITHAS LENYDDOL: Cynhaliwyd Cymdeithas Lenyddol Undebol Llanberis Nos Iau Hydref 8ed yng Nghapel Coch dan lywyddiaeth Mr Hugh R Jones. Cyflwynwyd sgwrs fendigedig gan y cyn-ysgolfeistr Mr John Hugh Hughes ar William Morgan (1541-1604) a gyfieithodd ein Beibl i'r Gymraeg. Diolchwyd iddo gan y Parch Trefor Lewis.

Paratowyd lluniaueth ysgafn gan Mrs Jennie Jones, Mrs Mair Eluned Owen, Mrs Dilys Baylis. Roedd yr aelodau oll wedi mwynhau'r noson a charem weld mwy o frodyr yn dod i gynorthwyo y Parch Trefor Lewis yn y cyfarfod nesa ar Nos Iau Tachwedd 12ed. Dewch yn llw, mae digon o le a'r festri yn gynnes i'ch croeso.

SEFYDLAID Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Fedi 24. Llwyddwyd y cyfarfod gan Mrs Hannah Jones a chroesawyd yr aelodau yn ôl ar ôl gwyliau'r haf. Croesawyd Mrs Dorothy Thomas yn nôl i'n plith. Cydymdeimlwyd â theulu y diweddar Mrs Katie Morris a oedd yn aelod ffyddlon iawn o'r Sefydliad ac yn barod i helpu bob amser. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs Jeannie Lloyd Jones a Mrs Rhys Owen. Ein gŵr gwadd oedd Mr John Hugh Hughes cyn brifathro Ysgol Dolbadarn. Cafwyd sgwrs am ei blentynod o'r amser yn yr ysgol hyd at ei amser fel prifathro. Diolchwyd iddo ac i'r gwestwagedd gan Mrs A.B. Jones a Mrs Dilys Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs Dorothy Thomas, Mrs Nan Owen a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Jones.

ST. JOHN'S AMBULANCE: CASGLIAD O Dŷ I Dŷ: Helen Parry ac Alwena Thomas, Turner Street £42.79; Eirwen Nisbet a Dilys Kisalu, Dol Elidir £28.98; Iona Jones, Goodman St. £6.41; Ann Jones a Madelina Rogers, Newton St. £19.00; Nant Peris £10.20; Glenys Owen a Mair Davies, Snowdon St. £21.09; Gillian V. Jones, Well St, Water St. £17.82; Meira Willis a Llinos Foulkes, Maes Padarn £17.74; Glenys Parry, Ceunant, Frongoch £30.97. Y cyfanswm oedd £195.00.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,

MIS Y COFIO

A hithau'n fis y Cadoediad, Mis y Cofio, neu Fis y Pabi Coch daeth y wybodaeth â ganlyn i sylw'r Eco trwy law Mr Eurwyn Roberts, Y Clegir. Un o hogia Cae'r Frân yw Eurwyn a daeth o hyd i raglen dadorchuddio cofeb rhyfel Llanberis tra'n clirio'r cartref.

Eiddo y diweddar Mrs. L. Roberts oedd y rhaglen ac ynddi yr oedd enw ei brawd yng nghyfraith Tom Jones Roberts, Cae'r Frân, Llanberis yr hwn a syrthiodd yn y Rhyfel Mawr 1914-18.

Cyfranodd y teulu yn hael tuag at y gronfa a chafodd enw Tom ei gerfio arni yn wynebu tua'r cartref. Gosodwyd y gofeb ar y ffordd fawr ger yr Eglwys a dadorchuddiwyd hi ddydd Sadwrn Hydref 1af, 1921 am hanner awr wedi dau y prynhawn.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. D.P. Thomas, Y Parch. Thomas Lloyd, Y Parch. Lewis Jenkins, Y Parch. John Pritchard a'r Parch. A.J. George. Arweinwyd y gân gan y "Cyn Filwyr". Cafwyd anechiadau gan y Llywydd Mr. H. Ariander Hughes, Llwyncelyn, Y Parch. John Pritchard a'r Lt. Col. R.H. Mills-Roberts y meddyg enwog. Dadorchuddiwyd y gofeb gan Mrs Geoff Owen, Bryn Du. Canwyd tri emyn a chyflwynwyd y "Last Post"

gan aelodau o Seindorf Llanberis. Darllenodd Mr. R.W Roberts, Ysgrifennydd y Pwyllgor enw chwe deg a dau o hogia ifanc Llanbeirs a'r cylch ac un ferch sef Jennie Williams, Plas Coch Llanberis. Y grêd ar y pryd oedd "Canys gwell i mi farw yn y rhyfel, Na gweled drygfyd ein cenedl a'n cysegr."

Tri bywyd a thrigain - tipyn o bris i'w dalu am ryddid! Os oes gan rhywun fwy o wybodaeth am yr achlysur gyrrwch air at y golygydd.

Ers y flwyddyn 1976 saif y gof-golofn ger y fynedfa i'r ganolfan a thrist yw cofnodi fod mwy o enwau arni erbyn hyn. Yn anffodus hefyd nid yw enw Tom Jones Roberts bellach yn wynebu tua'i gartref.

GORLIF GOODMAN!



Y SAMARITAN TRUGAROG

Bu'n gymanfa lwyddiannus. Doedd yno ond pum tenor, ond mae'n rhyfedd fel mae brwdfrydedd cynulleidfia ac arweinydd doeth yn gallu cloi'r holl rihersals mewn bendith gerddorol. Canwn un neu ddwy o'r tonnau'n ddistaw i mi fy hun wrth gerdded adref trwy'r gwyll oedd yn araf ddisgyn dros y dref, gan ddal i fwynhau'r miwsig - rhyw fath o gnoi cil diwylliedig fel petai.

Torrwyd ar fy myfyrdodau gan sgwrs unochrog o'r pafin arall. Roedd rhywun isio gwybod y ffordd i Stormi. Edrychais drosodd a gweld bachgen ifanc yn araf lithro heibio dyn tipyn yn hŷn, gan ail-adrodd yn amyneddgar.

"Ffordd yna. Mi ydych ar y ffordd iawn. Daliwch yn eich blaen. Ewch ffordd yna", a throdd ar ei sawdl gan frysio tua goleuadau'r dref. Safodd yr holwr yn sigledig gan edrych ar ei ôl, cyn camu'n ansicr yn ei flaen, gyferbyn â mi, ar yr ochr arall i'r ffordd. Mwmbliodd iddo fo'i hun, yn amlwg wedi cael tropyn yn ormod. Dyna ffordd anwar i ddatlu Gwener y Groglith. Cadwais ar fy ochr fy hun, gan gyflymu fy ngherddediad. Beth ydy pwrpas cymysgu hefo'r fath wehilion. Trwbwl ydy meddwon bob amser.

Onid nid oedd heddwch i'w gael. Gwelodd fi.

"Hei. Hei chi. Aros. Hei."

Ni chymerais sylw.

"Hei was. Aros, aros."

Dechreuodd groesi'r lôn, yn hanner cerdded, hanner rhedeg, a bu bron iddo syrthio. Arhosais ac ochneidiai i mi fy hun.

"Yr hen pharisead. Dwyt ti ddim gwell dy hun. Gwener y Groglith yw hi. Chlywaist ti ddim am y Samaritan Trugarog? Gwna dy ddyletswydd."

Sefais tra deuai ataf, a bu bron iddo faglu ar ymyl y pafin. Gafaelais ynddo, a'i gynorthwyo. Llond fy hafflau o drwbwl yn disgyn i'm breichiau.

"Ia beth allai wneud i dy helpu?"

Penderfynias fod yn amyneddgar, a gwrandawais ar ei stori, stori hirfratiog annealladwy, tra cydgerddem, yn araf yn ein blaenau. Prin yr oedd yn gallu cadw ar ei draed. Bob hyn a hyn, disgynnai yn fy erbyn, ag fwy nag unwaith, bu rhaid i mi afael ynddo a'i dynnu yn ôl o'r ffordd, lle bu bron iddo gael ei anafu gan foduron. Ceisiais fy ngorau glas wneud synnwyr o'i lith, a'r byrdwn oedd fod ganddo ffrind yn Stormi, a'i fod am gerdded yno i'w weld.

"Elli di ddim cerdded i Stormi fel hyn, gyda'r holl draffig yma."

Mwy o fwmblian. Gallai ef. Fe

allai ef gerdded i unrhyw le. Ond gwyddwn i yn well wrth afael ynddo eto, a'i ddal ar ei draed drwch blewyn o olwynion car diystyriol arall.

"Beth am fws? Ellwch chi ddal bws?" Na, doedd dim bysiau yn rhedeg i Stormi.

"Beth am dacs?"

"Iawn fe wnai tacsu yn grêt."

Erbyn hyn, roedden wrth Yr Alarch, a rhoddais ef i eistedd wrth y drws tra chwiliais am y teliffôn a rhif tacsu. Ni fu'r cerbyd yn hir yn dod. Yn gyntaf, gofynnodd gŵr y tacsu a oedd ganddo arian i dalu, a thynnodd y meddwyn waled lawn o'i boced a'i rhoi i mi. Tra y telais i'r gyrrwr, roedd fy nghyfaill wedi disgyn yn erbyn y drws. Gyda trafferth mawr, llwyddais i'w ddal, agor y drws, a'i fwndlo fo i mewn i'r set gefn. Roeddwn yn falch o'i weld yn mynd, ac yn dechrau llongyfarch fy hun am wneud cymwynas, pan sylweddolais fod waled y creadur yn fy llaw o hyd. Doedd gen i ddim syniad pwy oedd o, na ble roedd o'n byw, ond addewais i mi fy hun yr awn i weld yr heddlu y peth cyntaf yfory.

Drannoeth y bore, ar y radio, daeth newydd "n erchyll - dyn tacsu wedi'i lofruddio ar y Stormy Down. Aeth chwys oer i lawr fy nghefn. Beth gebyst oeddwn wedi'i wneud? Llyncais baned o goffi a brysiais i orsaf yr heddlu, lle dechreuais adrodd fy stori wrth y sarjant, ond tawodd fi gan chwerthin, a dweud bod y llofruddiaeth wedi'i sortio allan. Rhyw ddihiryn o Gaerdydd oedd eisoes yn y ddalfa, ac wedi cyfaddef. Rhoddais ochenaid o ryddhad. Dyma fi wedi poeni yn hollol ddiangenrheidiol. Gwelwn fod y sarjant yn gwenu arnaf, a gwenais innau gan godi i ymadael.

"Peidiwch a mynd am funud", meddai'r plismon, "efallai y gellwch ein helpu hefo rhyw fater bach arall."

Eisteddais i lawr, ac aeth ymlaen.

"Mae 'na ddyn wedi bod yma bore 'ma yn gwneud cyhuddiad iddo ar ôl bod yn Yr Alarch neithiwr gael ei adael ar ochr y ffordd yn Stormi neithiwr, a bod rhywun wedi dwyn ei waled. Ellwch chi roi rhyw eglurhad?"

Diar, diar. Pwy hoffa fod yn Samariad?

Goronwy Owen

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFLUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)



Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun**
**Ffôn: Llanberis
871047**

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

**Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)**

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

YN EISIAU ... TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i
ddod i adnabod
busnesau'r fro.
Cysyllter â'r
Golygydd -
Caernarfon 3515
neu'r Trefnydd
presennol -
Caernarfon 5605.

BETH AM DDOD I GYSTADLU I EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Testunau yn y siopau
llyfrau Cymraeg
Manylion pellach:
Dafydd Orwig,
Bethesda 600423
Neu beth am ddod i
fwynhau'r wledd yn Ysgol
Dyffryn Ogwen
Nos Wener, Tach. 13
am 6.30
a Dydd Sadwrn, Tach. 14
am 12.30 a 6.00

I DDIFYRRU'R AMSER

Rhywbeth llythrennol wir fyddai dweud fod gan Glyn Owen ddigon o amser ar ei ddwylo oherwydd mae Glangors, Ceunant, ei gartref yn orlawn o gloriau o bob math.

Ond nid eu casglu, er mor bleserus yw hynny, yw pennaf ddileit Glyn Owen, ond yn hytrach eu hadnewyddu. Gofala'n dyner am bob cloc yn y tŷ, (ac mae degau ohonynt), bob un yn gweithio'n iawn - diolch i Glyn.

Ar y dechrau, hobi ydoedd, rhywbeth i ddifyrru'r amser, fel petae. Hoffai drwsio ambell gloc a 'potsio', chwedl Glyn. Fel ag a welir yn digwydd yn aml, tyfodd yr hobi yn obsesiwn, ac yn awr, ac yntau ar drothwy ei 70 blwydd mae mor frwdfrydig ag y bu erioed. Erbyn hyn, mae ei wybodaeth am gloriau a'u mecanyddwaith yn eang iawn.

Er ei fod wedi bod yn casglu cloriau ers tua chwarter canrif bellach, dechreuodd ymddiddori o ddifrif ynddynt yn nechrau'r saithdegau a hynny'n dilyn anogaeth grefyr argraffydd William Evans, Caernarfon, a oedd ei hun yn brofiadol a gwybodus ym myd cloriau.

Mae casgliad Glyn Owen o gloriau yn hynod ddiddorol - bob un ohonynt â'i hanes arbennig ei hun. Yn eu plith mae cloriau o'r cyfandir, o Ganada ac o'r Unol Daleithiau - rhai ohonynt yn hen iawn a rhai yn dangos hynodrydd dyfeisgarwch. Mae ganddo hefyd saith cloc mawr, yn cynnwys un gan y gwneuthurwr cloriau enwog John Williams, Y Ffôr, ac un arall o waith Morris Thomas, Caernarfon. Mae nifer ohonynt yn werthfawr iawn, ond er iddo gael sawl cynnig, nid yw Glyn â diddordeb yn eu gwerthu.



Ond nid bob cloc o'i eiddo sy'n orffenedig. Mae un stafell yn llofft Glangors yn llawn o focsycs yn cynnwys olwynion bach, sgriwiau, perfeddi cloriau, wynebau pres, darnau o bendiliau, 'spandrels' (addurniadau cerfiedig i'w rhoi ar wynebau cloriau) a bob mathau o offer. Uffern i leygwr fel y gohebydd hwn ond nefoedd i ddyn fel Glyn!

Ac mae o yn ddyn prysur a dyfeisgar iawn fel y tystia yr odyd cartref sydd ganddo i doddi plwm yng nghornel y cae ger y tŷ. Ond cyfaddefodd fod yn rhaid iddo gael help i adnewyddu cloc mawr. Mae saer lleol yn ei gynorthwyo gyda'r gwaith coed a gwneir y mowld ar gyfer y 'spandrels' yn Llanberis.



Sylwch ar y gwaith addurno cywrair ar wyneb y cloc ac hefyd ar y pwysau plwm sydd wedi ei doddi yn odyd cartref Glyn.

TAC SIS

AMBERLINE

BETHEL

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn: (93) 670555

HOME IMPROVEMENT CENTRE

FFORDD YR ORSAF LLANRUG Ffôn: C'fon 2212

**DEFNYDDIAU ADEILADU A
PHLYMIO, NWDYDDAU
CEGIN Tŷ A GARD**

Ar agor
7 diwrnod
yr wythnos

**ANGHENION D.I.Y.,
PAENTIO A PHAPURO,
TYWOD, SMENT, COED**

**AC YN AWR ... BARGEINION
TEGANAU AR GYFER Y NADOLIG
YMUNWCH Â'N CLWB NADOLIG**

Llun -
Gwener
8.30 - 6
Sadwrn
8.30 - 5
Sul 10 - 4

**BEICS PLANT BACH o £16.99
DOLIAU o 99c
"REMOTE CONTROLS" o £4.99
A LLAWER, LLAWER MWY**

RHAGOR O DDŴR



**OSMOND SHAW
DEINIOLLEN**

Gwerthu
a Thrwsio
Teledu Lliw Newydd
ac Fel Newydd
**GWASANAETH
FFON 24AWR
LLANBERIS 870545**

**SIOP
BAENT**

**STORFA
TŶ NEWYDD**

BRWSHUS. TYRPS
POLIFFILA
BWCEDI
'HARDWARE'
AC ATI

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



**CRIB
COCH**

**Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772**

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

**J M JONES
A'I FEIBION**

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwy'r gwaith llaw traddodiadol,
Cerrig o bob math ar gael.

**Ffôn: Caernarfon 2898 (dydd)
Y Felinheli 670124 (nos)**

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan a'n bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

APÊL YR URDD:

Apêl leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Nantle ac Arfon 1990: Ar ôl llwyddiant ysgubol y Noson Goffi a Chân pur arbennig a gynhaliwyd yn y Ganolfan nos Fawrth 29ain o Fedi, mae'n dda gan y pwyllgor gyhoeddi bod swm yr apêl wedi cyrraedd £200 erbyn hyn. Felly rydym bron â chyrraedd hanner y swm sydd ei angen arnom sef £500. Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y noson. Un o'r cynlluniau nesaf sydd gennym ar y gweill ar hyn o bryd yw Eisteddfod bentref - a bydd yr holl elw ariannol a wneir o'r Eisteddfod yma yn mynd tuag at yr apêl.

EISTEDDFOD BENTREF: Eisoes mae'r holl drefniadau wedi eu cwblhau ac mae'r Eisteddfod Bentref gyntafers blynyddoed yn mynd i gael ei chynnal ar Nos Fawrth, Rhagfyr 1af 1987 (nid nos Fercher fel y bu inni ei nodi yn yr Eco y mis diwethaf) yn brydlon am 7.00. Erbyn i chwi ddarllen hwn, fe ddylai testunau'r Eisteddfod fod yn eich meddiant. Os nad ydynt yna cysylltwch â'r trefnydd, sef Glyn Tomos ac fe wnaiff sicrhau eich bod yn cael copi ohonynt. Fe ddylai cynnwys y testunau fod at ddant pob un ohonoch a'n gobaith yw y cawn Eisteddfod gystadleuol iach a llawn hwyl. Cofiwch sicrhau eich bod yn anfon eich cynnyrch i'r trefnydd ar y dyddiadau a nodir yn y daflen destunau. Dylid nodi bod yr holl gystadlaethau yn agored i ddalgylch Ysgol Gwaun Gynfi a chyn-ardalwyr yn unig. Fe welwn ni chwi yn y Steddfod.

PLEIDLEISIO: Yr ohebiaeth ddiweddaraf sydd wedi dod i sylw y Cyngor Cymuned ynglŷn â hawl pawb o'r pentref i bleidleisio yn lleol yw bod Prif Weithredwr Cyngor Arfon, yn ei eiriau ei hun "yn weddol sicr yn awr y gallwn wneud trefniadau sydd yn galluogi yr etholwyr yma bleidleisio yn Ninorwig yn y dyfodol."

LLIFOGYDD: Tybed a gafwyd tywydd mor arw erioed na'r hyn a brofwyd gennym Dydd Sul Diolchgarwch - Hydref 18ed? Digwyddodd y difrod mwyaf i gartref Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir. Erbyn i Mrs Dilys Williams, 2 Bro Elidir. Bu iddynt

ddioddef llanast mawr ar ôl i ddŵr ddylio mewn i'w tai a difetha yr holl garpedi. Hoffai'r ddau deulu ddiolch i'w cymdogion am bob cymorth a ddangoswyd iddynt. Eisoes mae Adran Prifffyrdd y Cyngor Sir wedi cael gwybod am yr angen brys i glirio rhai o ffosydd y pentref er mwyn sicrhau na ddigwydd hyn byth eto.

PRIODAS RUDEM: Ar ddydd lau Hydref 29ain mae Mr a Mrs Hugh Thomas, 1 Bro Elidir yn dathlu eu priodas Ruddem - 40 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchion mawr iddynt oddi wrth aelodau'r teulu i gyd a'r pentrefwyr oll.

Prin y gall neb wadu ein bod yn byw mewn cyfnod o newid parhaus. Cofier fod Ceiriog wedi sylweddoli hyn flynyddoedd lawer yn ôl pan luniodd y geiriau:-

"Arferion Cymru fu - newid ddaeth o rôd i rôd, Mae cenhedlaeth wedi mynd a cenhedlaeth wedi dod."

Mae hyn yn gwbl wir yn ein hardal fechan ni mewn cyfnod cymharol fyr. Fe fu rhywrai'n ddiwyd iawn yn ceisio ennill tir glas yn borfa i'r anifeiliaid - ei ennill o fynydd-dir llwm, ond mewn amser cymharol fyr dyma'r caeau gleision hyn yn ildio'n ôl i fynydd-dir grug a brwyn, lle gwelwyd gwartheg a cheffylau'n pori a'r ffermwyr diwyd yn cynhyrchu menyn a llaeth enwyn, ac ambell un yn myned o gwmpas yr ardal mewn car a cheffyl i werthu llefrith, daeth diwedd ar y cyfan ac arferion bro yn newid.

Caewyd y siopau bychain lle ceid cyfle i sgwrsio'n hamddenol, a rhaid oedd myned i'r pentrefi a'r trefi cyfagos i ymorol am angenrheidiau bwyd. 'Roedd bwyd a dillad i'w cael yn yr hen amser o fewn 'tafliad carreg' i'n cartrefi. 'Rwy'n sicr y cytunwch ein bod wedi colli rhywbeth o ganlyniad i'r newid hwn. Fe wyddem problemau'r naill a'r llall, ac roedd mwy o frawdgarwch a chymwynasgarwch yn ein plith - y naill yn cynorthwyo'r tlawd i gludo cynnyrch y tir i ddiddosrwydd. Cofier nad culni oedd hyn i gyd, ac roeddem yn fwy ymwybodol o'r dulliau gorau o gyd-weithio, wedi deall yn fwy trylwyr anhawsterau ein gilydd. 'Roedd hyn yn adlewyrchu ar ein bywyd bob dydd a'n crefydd.

Ar sail cwyn yn y Ganolfan fe fu nifer o weithwyr y cyngor yn ail adeiladu man gwan yn wal y ffordd sydd gyfebyn â thai Maes Eilian. Teimlai un neu ddau fod angen 'cob' i gryfhau'r wal arbennig hon i arbed iddi ddisgyn i'r cae. Ni chafwyd 'cob' fel y cyfryw, ond fe ail adeiladwyd y wal a rhoddi dogn go dda o sment ynddi. Cyn gellid cyflawni'r bwriad gwreiddiol fe ddichon y byddai rhaid cael cytundeb rhwng y Cyngor â pherchennog y tir. Bellach nid oed perygl iddi gwmpo i lawr. Gresyn er hynny na archwilwyd y wal mewn manau gwan eraill er diogelwch y cyhoedd. Yrochr agosaf i'r Ganolfan i Fronheulog fe fu car mewn gwrth drawiad a'r wal ac felly mae angen cryfhau yn y fan honno hefyd.

SUL Y BEIBL GYMDEITHAS: Ers nifer o flynyddoedd bellach fe ystyrir y Sul cyntaf yn Hydref yn Sul y Feibl Gymdeithas i gylch sy'n ymestyn o Benisarwaun a Brynrefail i fyny trwy Glwt-y-Bont a Deiniolen i Ddinorwig. Fe gynhaliwyd sesiwn y pnawn dan arweiniad syml a dilol Miss Lola Llewelyn Griffith, 'Cynfi', yng Nghapel Cefn y Waun. Hunanddewisiad oedd eitemau o gapeli ac eglwysi'r cylch, ac roedd pob eitem yn wahanol a'r paratoi wedi bod yn drylwyr. Diolchwn fod cymaint o gyfeilyddion medrus ar y paino a'r organ electronig yng Nghapel i'r Fro. Roedd yn agoriad llygad ac yn bwnc i ymfalchïo ynddo bod cymaint yn cysegru eu doniau i roddi eu gorau i achos Crist a chrefydd. Yng Nghapel Libanus, Clwt-y-Bont y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu eleni dan arweiniad Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail - hithau'n gwneud ei gwaith yn wir feistrolgar, ac 'roedd yn gwerthfawrogi cyfraniad Miss Mair Rees Jones ar yr offeryn sydd braidd yn anhydrin gan fod angen gofalu am wynt ym meginau'r offeryn - a hynny'n galedwaith ynddo'i hun. Fe offrymwyd y fendith gan y Parchg. Trefor Lewis - gweinidog nifer o gapeli'r cylch, ac fe gafwyd gair pwrpasol yng Nghewn y Waun (M.C.) gan drysorydd lleol y Feibl Gymdeithas - Mr. Davies o Benisarwaun.

COFION: Chwith i ni ym Maes Eilian oedd clywed y bu rhaid cludo Mrs Elizabeth Jones, rhif 9 i'r ysbyty unwaith yn rhagor. A minnau wedi bod yn sgwrsio â hi y bore yr aed â hi i'r ysbyty fe synnwn i drawiad y galon ddod mor sydyn. Wedi cyfnod cymharol fyr yn yr Ysbyty, fe aeth i'r

Wyddgrug at y ferch sy'n gofalu'n dyner amdani, mae'r ddau fab hwythau'n cadw llygaid ar ei thŷ yn ei habsenoldeb.

DIOLCHGARWCH: Pan gymharwn yr Wyl Ddiolchgarwch flynyddoedd yn ôl â'r Wyl honno heddiw fe gawn arwyddion digamsyniol o newid pellach yn y dyddiau cynnar. 'Roedd yn ymestyn o fore Sul hyd Nos Lun a'r capeli yn feddiannol o ddigon o doniau cyhoeddus. Ar ben hyn fe gaem gwmni dynion o Nyns Môn, ac fe gaem fantais o'u doniau hwythau yn annerch gorsedd gras a cheid peth arlliw o'u cefndir amaethyddol. Roedd bri ar y chwarae yr adeg honno, a'r gwŷr hyn yn treulio wythnos o nos Lun hyd nos Wener yn hen 'fricsiod' y chwarel. Hyfryd oedd clywed y lleisiau gwahanol. Fe offrymid gweddïau taer yn gyforiog o ddiolch am roddion Duw i bobl y ddaear gyda phwyslais arbennig ar roddion tymhorol a gaem yn rhad. Roedd St. Mair wrth gwrs yn dilyn y ffurf wasanaeth a ddarperid yn y Llyfr Gweddi Gyffredin. Eto roedd y cyfan oll er clod i Dduw. Pan brinhâodd y doniau, fe geiswyd cadw'r hen drefn ymlaen a gwahodd gweinidog neu fyfyrwr i'w cynorthwyo mewn oedfa nos Sul a lliw diolchgarwch arni. Erbyn hyn fe fu rhaid bodloni ar lai o oedfaon, er i ni sylweddoli y dylai pob oedfa fod yn oedfa ddiolchgarwch, a bod Duw wedi rhagori ar ein disgwyliadau ni. Yn ychwanegol at yr hyn a nodwyd y mis diwethaf daeth i'n clust bod plant Ysgol Sul St. Mair yn gwneud eu rhan dan gyfarwyddyd Mr Glyn Thomas. Oedfa Weddi am 5 o'r gloch a gafwyd yn Dinorwig M.C., a Sardis yn cynnal oedfa am 2 o'r gloch ddydd Llun.

DYMUNA Mrs Annie Jones, Paradwys, Gaerwen (gynt o 5 Maes Eilian), ddiolch o galon i bawb o'i chyfeillion a'i chydabod am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb. 'Rwy'n sicr bod amryw o'i chyfeillion yn yr ardal hon, fel finnau yn dymuno'r gorau iddi, a hithau'n awr yn byw gyda'r ferch a'i mab yng nghyfraith ym Mharadwys, Gaerwen. Ei theimlad hiraethus yw "Mae nghyfeillion adre'n myned o fy mlaen o un i un."

Gyda tymor haf mor siomedig a fawr o argoel bod tymor yr Hydref yn well chwaith, yr ydym yn bryderus wrth edrych ymlaen at dymor gaeaf arall. Daw'r Gymdeithas Ddiwylliadol a rhyw arlliw o oleuni i ni ac mae tymor hon yn dechrau wedi i ni weld cefnu ar dymor byr yr ysgol nos.

Delyth a Bethan

Delyth. Wyt ti di clwadem lyfr newydd Caryl?

Fflipin hec, Bethan, ti ddim yn meddwl seriously am ei brynu o.

Mae on briiliant, piliant, Delyth.

Paid â bod yn stiwpid.



Llyfr newydd Caryl - ar gael yn eich siop llyfrau Cymraeg leol. pris £3.50. neu os nad oes siop yn yr ardal anfonwch at:

Hughes a'i Fab. Clôs Sophia. Caerdydd CF1 9XY

gan nodi eich enw a ch cyfeiriad ac amgau sicr/archeb bost am £3.95 (yn daladwy i Hughes a'i Fab).

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

YR URDD: Mae 82 o blant wedi ymaelodi yn y ganol leol eleni. Cafwyd cychwyn bywiog iawn i'r tymor gyda Disgo dan ofal Mrs Nia Morris, Tan y Ffordd. Diolch i Nia am drefnu'r noson ac i'r plant am ymddwyn mor dda.

Bydd y gangen yn dathlu Calangaeaf ar Hydref 29, pryd y cynhelir cystaldeuaeth gwneud masg. Gofynnir i bawb ddod a cardboard a ffelt pens neu bensiliau lliw i'r Neuadd. Wedi gwneud y masgiau fe drefnir chwaraeon.

Bu Carys Owen, Mandy Williams, Gail Warrington, Sian Llywelyn Jones, Julie Ann Jones, Lliwen Jones, Llinos Angharad Morris a Menna Williams yn casglu o dŷ i dŷ at yr Urdd. Diolch iddynt ac i'r pentref am eu cefnogaeth.

Noson Tân Gwylt: Ar ôl llwyddiant y noson tân gwylt llynedd mae'r Urdd wedi penderfynu cynnal arddangosfa eto eleni. Bydd y noson yn cychwyn am 6 gyda chawl a chi peth yn y Neuadd gyda'r arddangosfa tân gwylt yn dechrau tua 6.30. Codir tâl o £1 y pen sydd yn cynnwys ci poeth, cawl a'r arddangosfa. Bydd yr elw yn mynd at Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1990. Os bydd gan rhywun unrhyw beth i'w roi ar y goelcerth dylio dod a'r stwff at y Neuadd ar ôl 5.30 ar y noson.

LLONGYFARCHIADAU: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Eirian Wyn Roberts, Glaslyn, Saron a Robert Kevin Thomas, Y Felinheli a briodwyd yn Eglwys y Felinheli ddydd Sadwrn Medi 26.

BEDYDDIO: Ddydd Sul, Medi 27 cynhaliwyd dau fedydd yn Y Cysegr. Yng ngwasanaeth y bore bedyddiwyd Arwel Llywelyn, mab Mr a Mrs Llywelyn Hughes, Afallon, Tan y Cae ac ar ôl yr Ysgol Sul bedyddiwyd Dafydd Rowston, mab Tony a Helen Davies, Y Gaerwen.

CLWB Y RHOS: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr ysgol Nos Lun, Hydref 12. Roedd y cyfarfod dan ofal Mr Bobbie Haines oedd wedi trefnu i Mr Rol Williams, Waunfawr ddod draw i roi sgwrs ar bethau difyr a welodd wrth ddarllen y papurau newydd o gyfnod troad y ganrif, pan yn ymchwilio i'w lyfr ar Drên Bach yr Wyddfa sydd i'w gyhoeddi yn fuan. Diolchwyd i Mr Rol Williams ar ran y Clwb gan Mr Collwyn Williams. Penderfynwyd rhoi cyfraniad o £2 y pen i gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1990.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r clwb sy'n cyfarfod yn yr ysgol ar yr ail nos Lun bob mis.

APÊL Y SGANIWR: Cynhaliwyd

cyfarfod o bwllgor apêl y sganiwr yn y neuadd, Nos Wener, Hydref 16. Adroddwyd gan y trysorydd Mr Goronwy Jones fod y gronfa bellach wedi cyrraedd y targed. Penderfynwyd trosgwyddo'r arian i Miss Mary Richards ar ran yr apêl mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Nos Wener, Tachwedd 13, am 7 o'r gloch. Darperir paned a mince pie gan aelodau'r pwyllgor lleol.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Brian Sharpe, Ael-y-Bryn ar gael ei ddewis yn Ystus Heddwch ar Fainc Bangor.

EISTEDDFOD BETHEL: Bydd y gwaith llaw, coginio a'r celf yn cael ei feirniadu yn y Neuadd Nos Wener Hydref 30 am 5 o'r gloch. Dylai'r holl gynnyrch fod yn y Neuadd erbyn 4.30 ac am 6.30 bydd arddangosfa o'r cynnyrch. Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd ddydd Sadwrn Tachwedd 7ed ac edrychir ymlaen at gyfarfodydd llewyrchus eto eleni.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch Capel Bethel ddydd Sul, Hydref 11, a chynhaliwyd yr ŵyl ar y dydd Llun traddodiadol yn Y Cysegr gyda'r plant yn cymryd rhan yn y bore, yr ieuenctid yn y pnawn a'r oedolion gyda'r nos.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Agorwyd tymor y Gymdeithas gyda noson yng nghwmni Parti Alawon Menai yn festri Bethel Nos Fawrth Hydref 27. Nos Fawrth Tachwedd 10ed, ceir darlith a sgwrs gan y Parchedig Emlyn Richards, Cemaes yn festri Cysegr. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

YN 18 OED: Dymuniadau gorau i Mark Roberts, Llys Menai fydd yn dathlu ei benllwydd yn 18 oed ar Tachwedd 16.

NEWYDDION I'R ECO: Mis arall a dim sôn am eich cymdeithas chwi yn yr Eco? Os ydych am roi hanes eich clwb, pwyllgor neu gymdeithas yn yr Eco, cofiwrch ddod ag o i'r gohebydd lleol Geraint Elis mewn pryd.

PLAID CYMRU: Cynhelir Bingo yn y Neuadd Nos Wener, Tachwedd 27ain am 7.30 p.m.

DRAENOG



Tydi'r plismyn yma yn benderfynol o gael eu dyn, neu eu pysgodyn. Glywsoch chwi am y ditectif-sgotwr o Fethel yn neidio i'r dŵr ar ôl y 'sgodyn i wneud yn sicr na fyddai yn dengid.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss N. Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (Llanberis 870030)

Oherwydd y tywydd garw ar y Sul Hydref 18ed bu rhaid gohirio Gwasanaeth Diolchgarwch Plant yr Ysgol Sul Tan y Coed hyd bawb Sul Hydref 25ain. Athrawes o'r Ysgol Sul Miss Bethan Lewis Parry a phlant yr ysgol Sul fydd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn. Miss Enid Roberts yn cyfeilio. Rhoddir yr anerchiad gan y gweinidog. Y parch John Morris a llywyddir gan Mr Robert Williams, Arolygwyr yr Ysgol Sul.

Gan i'r storm gilio erbyn Dydd Llun bu'n bosibl cynnal y cyfarfodydd Diolchgarwch drefnwyd ar gyfer y dydd.

Cyfarfod Gweddi yn y bore, Mrs Beryl Mai Jones, Mrs Megan Williams, Miss Megan Humphreys, Mri Harry Jeffrey Roberts a DGlynne Owen yn gwasanaethu.

Yn y gwasanaeth yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. W.O. Roberts. Y cyfeilydd oedd Mrs Violet M. Blanchard.

Calonogol oedd cael cynulliad da yn y ddau gyfarfod bendithiol.

Unwaith eto profodd fritholion hynny o'r ardal gafodd drafferthion wedi'r llifogydd ddaeth yn sgil yr

ystorm, ewyllys da a chonsyrn cymdogion. Clywid eto dŵn traed cymdogol yn cerbyd eu drws i ofyn a oedd popeth yn iawn. Diolch am gael byw mewn cymdogaeth dda.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Dorsi Roberts, Garededd a gollodd ei modryb, y diweddar Mrs Blodwen Hughes, Caernarfon, ac 'ar teulu oll yn eu galar.

LLONGYFARCHIADAU i Manon Llwyd Evans, Carwyn a Dafydd Meredydd Jones, Pant Hywel, Penisarwaun ar agel eu dewis yn Brif Ddisgyblion Ysgol Uwchradd Brynrefail. Boed iddynt flwyddyn lwyddiannus iawn yn eu swydd bwysig.

CROESO ADREF i Mr Hefin Jones, Dolwen, wedi derbyn llaw driniaeth feddygol yn Ysbyty Gwynedd. Da deall fod Mr Jones yn gwella. Llwyd iachad vuan i chwi.

DYMUNIADAU DA'R arda i Mr a Mrs Gareth Lloyd Jones, a Mr a Mrs Garry Wynne, y ddau deulu wedi symud tŷ ac yn awr yn byw drws nesaf i'w gilydd ar Ffordd Pantafon. Pob hapusrwydd i chwi yn eich cartrefi newydd.

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

J. Philip, Davies

Y Trip

Gwasg Gomer £2.75

Nofel antur ar gyfer dysgwyr hŷn sydd wedi dilyn cyrsiau sylfaenol yn y Gymraeg.

Jane Edwards

Y Bwthyn Cu

Gwasg Gomer, £5.75

Nofel i Oedolion.

John Elwyn

Yn Fy Ffordd Fy Hun: Cyfrol 3

Gwasg Carreg Gwalch £3.25

Y drydedd gyfrol o 'Hunangofiant Dyn Brybwyll.'

Bernard Evans

Terfysg

Gwasg Gomer £3.25

Nofel antur ar gyfer pobl ifainc yn eu harddegau.

E. Gwyndaf Evans

Cerddi Gwyndaf

Gwasg Gee £6.00

Casgliad cyflawn o farddoniaeth Gwyndaf, ynghyd â'r teyrngedau a gyhoeddwyd wedi'i farw ym 1986.

Lliffon Hughes-Jones

Caneuon Lliffon

Y Lolfa £3.95

Casgliad o ddeuddeg o ganeuon i blant. Beryl Jones

Cadwyn Cyfeillion

Alger a Ward £2.00

Hanes rhai o'r merched y cyfarfu'r awdures â hwy yn ystod ei 7 mlynedd oddi cartref.

Gwyn Jones

Emynwyr Dyffryn Conwy

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, 75c.

Darlith Dyffryn Conwy, 1986

D. Tecwyn Lloyd

Llên, Cyni a Rhyfel

Gwasg Gomer £5.00

Deg o ysgrifau llenyddol

T.H. Parry-Williams

Casgliad o Gerddi T.H. Parry-Williams

Gwasg Gomer £9.75

Carys Richards

Ynys y Cylch

Gwasg Gee £3.50

Nofel i Oedolion.

Margaid Roberts

'Sna'm Llonydd I' Ga'll!

Gwasg Gomer dros Lys yr Eisteddfod Genedlaethol £1.50

Y gyfrol o storïau byrion cyfoes a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog, 1987.

Angharad Tomos

Jam Poeth

Y Lolfa £1.65

Y nawfed yng Nghyfes Rwdlan.

Merfyn Turner

Trwy'r Drws ac Allan

Christopher Davies Cyf £4.50

Cyfrol sy'n cofnodi rhai o'r profiadau ysgytwol a ddaeth i ran yr awdur yn sgil ei waith fel gweithiwr cymdeithasol.



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn:

LLANBERIS 870232

BARA FFRES A
THEISENNAU BLASUS
Hefyd gwerthwyr
CALOR GAS

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

Gosodwyr

Nwy

Cofrestedig

Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Hanes Dau Fyfyriwr – Un o Fôn a'r llall o Arfon
gan Yr Athro Ifor Williams
Hydref 7ed, 1944

"Nid rhai pŵl yw'r mwyafrif mawr o'm disgyblion, o drugaredd. A dyma ichi enghraifft o ddau o'r rhai awchus. Un o Fôn a'r llall o Arfon, dau ymgeisydd am y weinidogaeth. Daethant at ei gilydd yn yr un llety yng Nghlynnog, a chael fod yr un awch am fynd i'r Coleg ynddynt ill dau, a'r un tlodi yn eu blino. Prin oedd yr arian, prin iawn. Deuddeg swllt a chwe cheiniog gan un a saith swllt gan y llall. Nid oedd cyhoeddiad i'r ddau bob Sul. Felly trefnasant i rannu eu henillion: ni waeth prun a bregethai, yr oedd y tâl i'w haneru, hanner i bob un. Daeth y gaeaf, ac angen cot fawr newydd. Prynwyd un ar y cyd i ffitio'r ddau, a gwisgid hi gan yr un â'i i'r pulpud mwyaf urddasol. Cai'r llall fenthyg topcoat gŵr y llety. I hwyluso teithio, prynwyd beic, ar y cyd. Os byddai taith y ddau i'r un cyfeiriad, âi un ar gefn y beic am filltir, yna ei adael ym môn y gwrych, a cherdded yn ei flaen. Cychwynai'r llall ar droed, a phan ddelai at y beic neidio i'r cyfrwy, dal y cyn-farchog a'i basio, filltir arall. Wedyn disgyn, gadael y beic, a'i throedio ymlaen. Felly i ben y siwrnai ar droed ac ar feic, ar feic ac ar droed. Ym mhen dwy flynedd pasiodd y ddau i Goleg y Brifysgol, Bangor, a daliodd y cyfamod yno hefyd. Â'u harian prin, prynent un copi o bob gwerslyfr a defnyddient ef ar y cyd. A dyma arweiniodd bron i ymrafael rhyngddynt ar derfyn gyrfa'r Coleg. Pwy oedd piau'r llyfrau yn awr! Tynnwyd "Byrra docyn", rhyw fwrw coelbren arnyn nhw, ac meddai'r un a ddywedodd yr hanes wrthyf, a thinc chwerv yn ei lais "Y fo gafodd y llyfr a'r llyfr a finnau ei eisio fo!"

Gwych o ddau! A gawson nhw eu gradd? Do, debyg iawn, fydd bechgyn fel yna byth yn methu. Ddylen nhw ddim methu. Yr oedd awch angerddol yn eu heneidiau, a min ar eu meddwl.

Ac yr oedd rywbeth arall yn y ddau, fil godidocach nag awch hunanol."

Adlais Gŵyl y Diolchgarwch

Cyhoedwyd yr emynau canlynol yn 1797 Hugh Jones a Faesglasau yw eu hawdur. Gan ei bod yn fis Diolchgarwch am y Cynhaeaf credaf ei bod yn bwrpasol i'w cyhoeddi heddiw.

Arglwydd edrych yma i lawr Amgylchyna Brydain Fawr. Cofia d'etifeddiaeth ddrud a Ddewisaist cyn bod byd. Anfon ini ymwarded rhad Ninnau'th folwn Di ein Tad.

Ti addewaist deuai i ben Amser hyfryd is y nen Pan na chlywer dim yn hwy Sôn am ryfel gwaedlyd mwy, Ond pob cenedl yn gytun Yn Dyrchafu Tri yn Un.

(Sonia Hugh Jones am elynion)

Syrthied eu creulondeb mawr A'u didduwiaeth oll i'r llawr, A phrysured bore dydd I droi miloedd i'r wir ffydd Ffydd yn haeddiant Mab y Dyn Lanwo Ewrop oll yn un.

Awn bellach yn gytun At orsedd gras heb gryn, Gan godi ein llef at Frenin Nef, Fe'i gwrendy Ef ni'n un. Na foed rhaniadau mwy, Na phlaid mewn gwlad na phlwy, Ond undeb bryd, er bod rhyw hyd, Heb weled hawddfyd hwy Ein pechod mawr sy'n tynnu i lawr Ein barau'n awr o'r nen, Tir Prydain fydd, tan gwmwl sydd, Tra paro'n dydd, caethiued prudd, Duw arnom bydd yn Ben.

Hugh Jones, Maesglasau.

Gogoniant tragwyddol i'th enw fy Nuw Mae'r byd yn dy gysgod yn bod ac yn byw Ni flinaist fynd heibio i feiau di-ri I gofio pechadur na chofia dydi.

Tydi sydd yn deilwng o'r bri a'r mawrhad Tydi roddodd fywyd a chynnydd i'r had; Tydi yn dy nefoedd aeddfedodd y grawn, Tydi roddodd ddyddiau'r cynhaeaf yn llawn.

Er maint y daioni a roddi mor hael, Tu cefn i'th drugaredd mae digon i'w gael, Llawenydd i'w cofio er cymaint a roed Fod golud y nefoedd mor fawr ag erioed.

Dyfed (Evan Rees, Caerdydd) 1850-1923.

GALW DDOE I GOF

Parhau â phytiau o atgofion Edith Michael, fel y'u llefarodd i'w merch Mrs Mem Pritchard.

Ers talwm iawn ar ddechrau y ganrif yma, pan oeddwn i yn hogan bach, mi oedd na rhywbeth oedda nhw yn alw yn 'Y Diwygaid' yn digwydd yng Nghymru. Roedd pawb ym mhob man yn edifarhau am eu pechodau, a'r Capeli a'r Eglwysi yn orlawn bob noson o'r wythnos, a Phregethwyr mawr yn mynd led led Cymru i bregethu.

Yn Bethel oedda ni yn byw ar y pryd, ac mi oedd na sant o hen ŵr, Mr. Ap Ellis yn byw yn Tanyburath. 'Lay Reader' yn Eglwys Saron Bethel oedd o. Dyn tal tennau a gwallt gwyn yn cyrraedd lawr dros ei goler.

Mi ydw i'n cofio yn dda iawn cerdded i lawr i'r Felinheli ddwy waith hefo Ap Ellis amser y Diwygaid i glywed y Pregethwr mawr Evan Roberts yn Eglwys St. Mary. Mi oedd yna eira ar y llawr ac mi oeddwn wrth fy modd cael mynd yng ngolau lleuad. Cot goch dywyll wedi eu gwau i gyd amdanaf a het ffwr am fy mhen, a blodyn pinc un ochor iddi. Het galed a top côd ddu hir am Ap Ellis.

Mi fydda Ap Ellis yn aros weithia yn sydyn ac yn codi rhyw bwnc i siarad hefo fi, a mi fyddai yn edrych ar y lôn a'i ddwylo tu ôl i'w gefn, a finnau yn siarad pymtheg y dwsin yn ôl hefo fo. Mae'n siŵr mai cael hwyl am fy mhen yr oedd yr hen greadur, ond beth bynnag, doeddwn i ddim yn meddwl hynny ar y pryd ac yn teimlo yn glyfar iawn.

Dyna braf oedd hi yn yr Eglwys orlawn, a'r côr yn canu werth eu clywed. Mi oedd Evan Roberts yn ddyn hardd iawn. Mi oeddwn i yn mynd i eistedd hefo Ewyrth Bob, brawd mam, mewn set ar yr ochr dde yng nghroes yr eglwys.

Pan oeddwn i yn hogan bach mi ddaru ni symud i fyw i Pentir. Un haf poeth mi gafodd fy nhad waith i llnau rhyw gerrig bedd yno. Hen gerrig gwyn mawr a trimins ar y top, pedair ohonynt yn perthyn i rhyw deulu o Fangor.

Mi weithiodd fy nhad yn galed iawn, iawn i gael y cerrig yn lân, hefo pwysi o soda a sebon meddal. Mi fydda nhad yn gwneud job iawn ne' ddim.

Ar ôl gorffen, â'r cerrig fel newydd mi oedd yn rhaid mynd i rhyw offis yn Stryd Fawr Bangor i nôl y pres, a dyma fy mrawd Johni a fi yn gorfod mynd. Mi ydw i yn dweud perffaith wir, doedd na ddim tamaid o frecwast cyn cychwyn, amser caled iawn oedd hi. Dros bedair milltir eisiau ei gerdded i Bangor a hithau yn boeth ac yn sych iawn.

Dyma gyrraedd yr hen offis yn y Stryd Fawr. Troi fyny o'r Stryd ac ar hyd hen lôn gefn bach. Pedair o steps at y drws, a cnocio hefo fy nwrn. Y drws yn agor a hen ddyn cas hefo coes bren yn sefyll yna. Dyma fi yn dweud y neges, a dyma fo yn dechrau tafodi a'n hel ni oddi yno hefo ei ffon. Mi oedda ni wedi dychryn, a mi roddodd glep ar y drws ac yr oedd yn rhaid i ni fynd oddi yno.

Wedi dychryn gormod i sbio yn un ffenest siop ar hyd y Stryd Fawr, ac allan â ni trwy rhyw giât fach yn top Bangor i gychwyn cerddad adra. Dringo rhyw railings i weld y trenau yn y Stesion, a dyma ni yn cael yr ogle mwyaf bendigedig. Mi roedd yna ffatri yn ymyl y station yn gwneud peis a phob mathau o gigau, ac o'r fan honno oedd yr ogle yn dwad. Clywais i erioed ogle mor dda, a'r ddau ohona ni ar ben y railings a'n bolia ni yn wag iawn, ac yn mwynhau yr ogle da nes oedd ein cegau ni yn dyfrio.

Roeddwn ni yn reit hapus ar y ffordd adra, ond mi gofia i am byth mor ddigalon oedd mam druan pan glywodd hi am yr hen ddyn cas 'na. Ni chafodd fy nhad ddim dimau o'r pres. Doedd na ddim gobaith trio.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Yn eisiau erbyn Ionawr 1988

Athrawes i Gylch Meithrin Cwm-y-glo

Cysylltwch â Sioned Jones Llanberis 872085

nant

YN ÔL AR EICH SGRIN...

Deryn

NOS FAWRTH, RHAGFYR 1af, 9.00

CYFRES NEWYDD

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

CYDYMDEIMLWN â theulu'r diweddar Evan Roberts, Pant Hyfryd gynt a fu farw yn ddiweddar. Bu Mr Roberts yn flaenor yng Nghapel y Ceunant am saith mlynedd ar hugain. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo brynhawn Sul, Medi 27ain. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch John Morris a thalwyd teyrnged iddo gan Mr Owen Jones, Y Garth.

DIOLCHGARWCH: Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch dan arweiniad y Parch John Morris yn y Capel prynhawn Sul, Hydref 11eg. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan Tony Storey, Dylan Thomas, Nia, Catrin a Dylan Parry a Gwenno Parri.

HENADURIAETH ARFON: EGLWYS CEUNANT, LLANRUG:

Nos Wener, Medi'r 25ain yng Nghapel Ceunant, Llanrug, cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu canmlwyddiant agor y capel presennol. Y llywydd oedd Y Gweinidog, Y Parchedig John Morris, B.D., a'r organyddes oedd Miss Eirlys Jones.

Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchedig Meirion Roberts, Llandudno, Y Parchedig Ifor Rowlands, Caernarfon a'r Parch W.O. Roberts Llanrug. Cafwyd eitem hefyd gan y plant a'r bobl ifanc. Talwyd y diolchiadau gan Mr Edgar Wyn Parry, Caernarfon.

Y mae'r flwyddyn 1987 yn un hynod o bwysig yn hanes Eglwys Ceunant, oherwydd ym 1887 yr adeiladwyd y capel presennol. Ond, fel y gwyddys, y mae gwreiddiau'r achos yn mynd yn ôl i 1820.

Yn y flwyddyn honno y dechreuwyd cynnal Ysgol Sul mewn tŷ annedd o'r enw Tan y Ffordd. Ymhen dwy flynedd symudodd yr Ysgol Sul i ysgubor 'Tan y Graig'. Y dystiolaeth yw fod yr Ysgol Sul wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd hyn fel y bu iddynt wneud cais i gyfarfod ysgolion Llanrug i adeiladu ysgoldy. Ysyaeth, gwrthodwyd y cais hwn. Ymhen ysbaid wedyn gwnaethpwyd cais arall a'r tro hwn cyfeillion Ysgol Sul y Ceunant a orfu a dechreuwyd adeiladu ysgoldy yn gynnar ym 1825.

Yn y flwyddyn 1830, fe dorodd diwygiad allan yn ardal y Ceunant ac ymhen dwy flynedd yr oedd Seiat yn cael ei chynnal yn yr hen ysgoldy. Yn ystod y Seiat hwn mynegodd un o'r dychweledigion sef Thomas Griffith, ei awydd i gael ei dderbyn yn aelod yn Ceunant yn hytrach na Llanrug. Y canlyniad oedd dechrau'r Achos yn y Ceunant.

Erbyn y flwyddyn 1839, yr oedd capel newydd wedi ei godi gyda rhif aelodaeth o 30. Felly, gyda pheth gwrthwynebiad o gyfeiriad Llanrug fe sefydlwyd yr Eglwys ffurfiol a swyddogol ym mis Awst 1839, sef yr un flwyddyn ag yr agorwyd y capel cyntaf. Ar ôl dylwanwad diwygiad 1859-60 ar yr ardal, fe aethpwyd ati i helaethu'r capel hwn. Dechreuwyd ar y gwaith ym 1862. 'Roedd rhif yr Eglwys erbyn hyn yn 110. Yna yn y flwyddyn 1887, fe adeiladwyd capel presennol am oddeutu £900.

'Roedd Ceunant wedi ei chysylltu yr adeg yma â Chapel Llanrug ac fe arferid derbyn Pregethwr o Lanrug i wasanaethu'r Eglwys ar y Sul. Ond, ymhen amser, fe dorwyd y cysylltiad hwn ac fe gysylltwyd Ceunant â'r Waunfawr.

Y dystiolaeth yw mai Edward Roberts oedd gweinidog cyntaf yr Eglwys. Ys dywed un amdano: "Chwefror 5ed 1885, bu farw y gweinidog, sef Y Parch. Edward Roberts, yn 57 mlwydd oed. Bu'n pregethu am 32 mlynedd fel yr Apostol Paul mewn rhai eglwysi, felly

Edward Roberts yn y Ceunant a wnaeth waith bugail heb unrhyw dal mewn arian."

Rhifyr aelodau ym 1880 oedd 132, ac ym 1885 110. Cadarnhaodd y Cyfarfod Misol ym 1930 gais Ceunant a Than y Coed i estyn galwad i Mr J Easter Ellis, Pwllheli a myfyriwr yn y coleg i ofalu amdanynt.

Yn ôl un yr adeg honno, "Yr oedd Mr Easter Ellis yn ŵr ifanc, llawn bywyd a gwaith, ac yr oeddem fel Eglwys yn disgwyl llawer oddi wrtho."

Cyflog y gweinidog yr adeg yma oedd £100 y flwyddyn. Ysyaeth, ymhen tair blynedd fe dderbyniodd y gweinidog y Parchedig Easter Ellis, alwad oddi wrth Eglwys Walton Park, Lerpwl, i'w bugeilio ac fe dderbyniodd yntau'r alwad.

Ym 1939, a'r Eglwys wedi bod heb weinidog am chwe mlynedd fe benderfynodd Eglwys Ceunant a Than y Coed estyn galwad i Mr M. Meirion Roberts, Corwen, a myfyriwr yn y Coleg i'w bugeilio. Dywedodd ysgrifennydd yr Eglwys amdano yr adeg hynny:

"Y mae Mr Meirion Roberts yn ddyn ifan dymunol yn llawn bywyd a sŷel ac yr ydym yn gobeithio y bydd ef yn foddion yn llaw Duw i wenud gwaith mawr yn y ddwy eglwys."

Y Parch Meirion Roberts oedd y gweinidog olaf ar y ddwy Eglwys fel gofalaeth, oherwydd ym 1946 fe gysylltwyd y Ceunant ag Eglwys Croesywaun o dan fugeiliaeth y Parch T.J. Hughes, B.A. Fodd bynnag, yr oedd cysylltiad Sabothol â Than y Coed yn parhau o hyd. Erbyn hyn y gweinidog yn Nghan y Coed oedd y Parch. E. Goronwy Williams, B.A. Llanrug.

Deg mis yn unig y bu y Parch T.J. Hughes yn weinidog yn Ceunant, gan iddo ym mis Awst 1947 ymadael i'r Rhyl fel gweinidog.

Ym mis Hydref 1948, fe roddodd Eglwys Ceunant a Chroesywaun alwad i'r Parch Ifor Rowlands i'w bugeilio. Bu Mr Rowlands yn weinidog yn y Ceunant am wyth mlynedd.

Ym Ms Medi 1956, fe fu newid bugeiliol eto, oherwydd fe gysylltodd y Cyfarfod misol Eglwys y Ceunant â'r Waunfawr ac o ganlyniad i hyn fe ymadawodd y gweinidog y Parch Ifor Rowlands i ofalu am Eglwys Caeathro, Nasareth a Chroesywaun.

Felly ym mis Chwefror 1958 gwahoddwyd y Parch E. Goronwy Williams, B.A. Llanrug i fugeilio'r Eglwys. Cadarnhawyd hyn gan y Cyfarfod Misol. Cysylltwyd y Ceunant unwaith eto â Than y Coed a oedd erbyn hyn yn rhan o ofalaeth Capel Mawr, Llanrug.

Fel y gwyddys, fe fu'r Parch E. Goronwy Williams yn weinidog yng Nghapel Mawr Llanrug ers 1934, ysyaeth deunaw mis yn unig y bu'n gofalu am y Ceunant, oherwydd ym mis Medi 1959, fe dderbyniodd alwad i Henaduriaeth Dyffryn Clwyd.

Ym 1961, fe dderbyniodd y Parchedig W.O. Roberts alwad gan Eglwys y Capel Mawr, Llanrug, Tan y Coed a'r Ceunant i'w bugeilio ac fe ddechreuodd ar ei waith y Sul cyntaf o Dachwedd y flwyddyn honno.

Fel y gwyddys, fe fu Mr Roberts yn gofalu yn gydwybodol iawn am Eglwys y Ceunant am un mlynedd ar hugain, cyn iddo yntau ymddeol yn swyddogol ym mis Mawrth 1982.

Penderfynodd y Parch a Mrs W.O. Roberts ymddeol a chartrefu yn ardal Llanrug. Y mae ef erbyn hyn yn flaenor yn Eglwys Tan y Coed a Mrs Nansi Roberts hithau yn flaenores yng Nghapel Mawr, fel y gŵyr pawb ohonom yn y cylch, y mae'r ddau



Swyddogion Eglwys y Ceunant:

O'r chwith i'r dde: Mrs Helen Parry, Mrs Olwen Jones, Y Parch John Morris, Miss Eirlys Jones, Mr Owen Jones.

ohonynt yn parhau yn hynod o ddiwyd yng ngwaith yr ofalaeth.

Ym mis Ionawr 1984, fe symudodd y gweinidog presennol, y Parch John Morris, B.D., a'i briod Mrs Gillian Morris, B.A. a'u dau fab Rhys a LLŷr i fyw i Fans yr ofalaeth yn Llanrug.

Bu'r Parch John Morris felly yn weinidog yn Llanrheadr ym Mochnant, yn Henaduriaeth Trefaldwyn Isaf am dros dair blynedd cyn derbyn galwad unfrydol i ofalaeth Capel Mawr, Llanrug, Ceunant, Pontrhyallt, Tan y Coed a Brynrefail. Ysgrifenyddes ddiwyd Eglwys Ceunant ers 1969 yw Miss Eirlys Jones, Y Garth. Yn wir, y mae hi yn hynod o ffyddlon i'r gwasanaethau a hithau yw un o organyddesau yr Eglwys. Mae dau flaenor yn Eglwys Ceunant erbyn heddiw, Mrs Helen Parry, 'Morwel' a ddewiswyd yn flaenores yn 1982. Hithau hefyd yw trysoryddes yr Eglwys. Mae Mr Owie Jones, Y Garth, hefyd yn flaenor ers 1982. Bu'n arwain y gân yn yr Eglwys ers 1937, sef hanner can mlynedd, y mae ei briod hefyd Mrs Olwen Jones yn arwain y gân ers 1965.

Mae Mrs Nell Jones, Hafodol, hefyd yn organyddes yn y capel. Yn wir y mae'r cyfeillion hyn yn hynod o ffyddlon yng ngwaith yr Eglwys. Yn 1964, fe benodwyd Mr a Mrs Caradog Jones, Chwilog, i ofalu am y capel ac y mae'r teulu annwyl a gweithgar yma yn byw yn y Tŷ Capel ers hynny. Fel y gwyddys, y maent yn gofalu yn ardderchog am yr adeiladau ac y mae'r capel bob amser â golwg graenus arno.

Yn ystod 1983, fe aethpwyd ati i addurno tu mewn a thu allan i Gapel Ceunant. Hefyd fe osodwyd trydan a gwresogyddion yn y capel, ac o ganlyniad i hyn fe ddefnyddir y Capel ers Ionawr, 1984 i addoli ynddo yn hytrach na'r festri.

Y mae'r Capel yn hynod o hardd ac yn un hawdd i bregethu ynddo. Y mae rhif yr aelodau erbyn hyn yn 22 gyda 12 o blant. Un oedfa a gynhelir bellach ar y Sul ac de ddaw cynulliad da iawn ynghyd i'r oedfa honno, gyda nifer o bobl ifanc yn bresennol hefyd. Ysyaeth nid oes Ysgol Sul erbyn hyn, ond fe gynhelir Seiat a chyfarfod gwedd'i'r ofalaeth yng Nghapel Ceunant yn ei dro.

Fel y gwyddys, nid hawdd ydyw dilyn gweinidog a fu'n gofalu am Eglwys am un mlynedd ar hugain ac yn enwedig o gofio fod y gweinidog hwnnw sef y Parch W.O. Roberts wedi ymddeol ac yn dal i fyw yn yr ardal hon. Fodd bynnag, fe allaf dystio imi fel gweinidog presennol yr Eglwys dderbyn croeso a chefnogaeth yn y Ceunant. Y mae'r swyddogion a'r aelodau wedi bod yn hynod o ffyddlon a hynaws gyda fy mhriod a minnau. Y mae yng

Nghapel y Ceunant gydweithio hapus iawn a phawb annwyl a charedig yng ngwaith yr eglwys.

Ym mis Mai 1987, fe gafwyd gwasanaeth arbennig i ddathlu canmlwyddiant y capel presennol. Gwahoddwyd y Parchedig Meirion Roberts i bregethu. Bu Mr Roberts yn weinidog yn Ceunant o 1939-44. Hefyd fe wahoddwyd yr aelodau a chyn aelodau'r eglwys ynghyd â'r cyn-weinidogion, sef y Parch a Mrs Meirion Roberts, Y Parch a Mrs Ifor Rowlands, Y Parch a Mrs W.O. Roberts a'r gweinidog presennol sef y Parch a Mrs John Morris, ynghyd â'u plant Rhys a LLŷr i gael tynnu eu lluniau.

Cafwyd oedfa ardderchog a bendithiol iawn yn gwrando ar Y Parch Meirion Roberts yn pregethu. Yn wir, yr oedd tua 80 yn bresennol yn yr oedfa honno.

Hyderaf yn fawr y bydd y cyfarfod hwnnw a'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ym mis Medi, yn gyfrwng i adfywio gwaith ysbrydol yr Eglwys yn y Ceunant a'r ardal am flynyddoedd eto i ddod.

John Morris
Gweinidog.

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU
HENADURIAETH ARFON

EGLWYS CEUNANT



Llawlyfr
Dathlu Canmlwyddiant
agor y Capel presennol
1887-1987

Gweinidog a Golydd y Llawlyfr:
Y Parchedig JOHN MORRIS, B.D.

Mae'r llyfryn uchod ar Hanes Eglwys y Ceunant wedi ei olygu gan y Gweinidog presennol, Y Parch John Morris. Ynddo mae'n olrhain peth o hanes yr achos dros y can mlynedd diwethaf. Ceir hefyd atgofion rhai o gyn-weinidogion yr Eglwys, ac y mae'r llyfr yn cynnwys lluniau diddorol. Gellir ei archebu gan unrhyw un o'r swyddogion am y pris rhesymol o £1.50.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

DEINIOLLEN

GOHEBYDD: W O Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

APÊL LLEOL EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, DYFFRYN NANTLLE AC ARFON 1990: Mewn cyfarfod i sefydlu pwyllgor apêl lleol etholwyd sywddogion fel a ganlyn: Llywydd - Mr Bobby Williams; Is-lywydd - Mrs Mary W Jones; Ysgrifenyddes - Mrs Pat Thomas; Trysorydd - Mr Dafydd W Williams.

Yr ydym yn obeithiol fel pwyllgor y cawn eich cefnogaeth i gyrraedd y nôd o £3,500 a osodwyd i bentref Deiniolen. Mae llawer o weithgareddau yn cael eu trefnu a bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesa'.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Hydref 5ed o dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd. Croesawodd y llywydd y wraig wadd sef Mrs Janet Hughes o Debenhams, yn arddangos sut i goluro ein hunain. Cawson noson ddifyr iawn gyda Mrs Hughes a wnaeth dair o'r merched edrych yn hardd iawn. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Beti Wyn Davies. Rhoddwyd y te gan Mrs Eirlys Lloyd Jones a Miss Kathleen Jane Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Beryl Hughes. Llongyfarchwyd Miss Lena Rowlands merch Mrs Nancy Rowlands ar ei dyweddïad, a llongyfarchodd y llywydd hefyd Mrs J Eirlys Williams ar ddathlu ei phriodas ruddem ar Hydref 11eg. Dymunodd y llywydd wellhad buan i Mrs Mary Thomas a Miss Kathleen Jane Jones sydd newydd ddod o'r ysbyty ac i Mrs Janice Land. Llongyfarchwyd Mrs Marian Williams ar ei gwaith newydd yn Safeways. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 2il pan y bydd Mrs Pat Jones, Brynrefail yn rhoi arddangosfa gwaith llaw.

DIOLCH: Dymuna David A. Jones, 94 Pentre Helen ddiolch i'w deulu a chyfeillion am bob dymuniad o wellhad buan a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i Mrs K. Owen, Mrs G Morgan a phawb yn nosbarth 3C Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Dymuna Mrs Nan Owen, 27 Rhydfadog ddiolch i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau ar Ward Dulas. Diolch yn fawr i chwi gyd.

DART'S DEINIOLLEN: Llongyfarchiadau i Keith Bingham, Stryd Newydd, Deiniolen ar lwyddo i gyrraedd Rowndiau Terfynol y 'Winmau World Masters' yn Llundain ar y 4ydd a'r 5ed o Ragfyr. Fe aeth drwodd yn Rowndiau Terfynol Cymru yn Aberdar fel un o'r chwech sydd yn cynrychioli Cymru yn Llundain. Mae'n aelod o dîm dartiau y Wellington. Os am gefnogi Keith bydd bws yn mynd i Lundain. Am ragor o fanylion: Ffôn Llanberis 872066.

DIOLCH. Dymuna Ralph a Laura, 'Arlas', Penrhosgarnedd ddatgan eu diolchgarwch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth chwerw a sydyn, o golli eu mab annwyl Geraint yn 25ain oed.

Ganwyd Geraint ym Mro'r Eco, yn Tan-y-Rhiw, Gallt y Foel, ond ymadawodd y teulu i Benrhosgarnedd ym 1970. 'Er i flwyddi fyned heibio' tystiodd holl drigolion Bro'r Eco yn eu ffordd

arbennig hwy o ddangos eu tristwch tuag atynt fel teulu, a bu gweld yr hen wynebau annwyl yn nerth a chalondid iddynt wynebu'r dyfodol.

Diolch hefyd am yr holl gardiau, llythyrau a'r galwadau ffôn ac hefyd yr arian a dderbyniwyd, chwe chan punt sydd yn cael eu hanfon er cof am Geraint i'r Uned Ddamweiniau yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ac hefyd i Ambiwlans Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU i Henry a Bessie, 33 Pentre Helen, ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem ar Hydref 3ydd.



Henry a Bessie yn torri'r deisen yn ystod swper dathlu eu priodas ruddem.

DIOLCH: Dymuna Henry a Bessie ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem ar Hydref 3ydd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna rhai o drigolion Rhes y Faenol a gafodd drafferthion adeg y llifogydd mawr dydd Sul Diolchgarwch, ddiolch yn wresog iawn am gymorth parod mewn cyfyngder i gymdogion caredig agos a phell. Diolch yn fawr iawn.

I dalwrn Stondin Sulwyn fore Gwener Mentrodd Alun Wyn yn llawn hyder, Gwilym Ifans o'r de oedd yn ei erbyn Ond i ni yma, Alun oedd y ffefryn.

Rhoddwyd tri cwestiwn iddynt ateb Ond beth oedd hynny i Swyddog Undeb, Atebodd y ddau gyntaf gyda rhwyddineb Ond ar y trydydd daeth trychineb.

Gofyn enw'r forwyn yn Hafod Henri Gwyddoch amdani, mae'n bisin handi, Methodd rhen Alun gael yr Hat tric Ond gwyddai mai hi yw Siw Roderic.

Paid poeni Alun Wyn Fe ddigwydd i lawer eto ar ôl hyn, Haws dweud na gwneud ar fyr fyfyr Braff oedd dy glywed ar yr awyr.

MARWOLAETH: Wedi gwaelled byr iawn, bu farw Mrs Pam Greenway yn ei chartref yn Repton, ger Derby yn ystod mis Medi.

Bu Pam a Bill Canaway a'r teulu yn byw am rai blynyddoedd yng Nghraig Deiniol yn Neiliolen. Yr oedd atgofion y teulu am yr ardal a'i phobl yn rhai hapus iawn. Bu farw un o'r meibion, Paul, yn frawychus o sydyn flwyddyn yn ôl. Gedy Pam, ei gŵr a phedwar o blant. Michael, Hugh, William a Stephanie. Hefyd gedy ddwy chwaer sef Mrs Pat Larsen a Mrs Pen Archer.

Y CARNIFAL: Nos Fercher 16 o

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Ragfyr - Disco Gwisg Ffansi yn y Ganolfan (Neuadd a Caban). Plant bach tan 8 o'r gloch, rhai hynaf wedyn tan 10 o'r gloch. Bydd Santa Clos yno tan 8 o'r gloch yn ei Grotto. Mynediad 50c. Gwerthir cawl, 'Hot dogs' a 'Mince Pies'. Gwobrwyon am y wisg ffansi orau a nifer o wobrau eraill.

Rhagfyr 29, "Bullseye" yn y Ganolfan (neuadd). Cystadleuaeth o wybodaeth gyffredinol a scil o daflu

dartiau. Dau berson ymhob tîm £2 pob tîm. Gwobrwyon. £6 a chwpan i'w dal am flwyddyn i'r cyntaf. £5 i'r ail £4 i'r trydydd. Rhaid i'r ymgeiswyr fod dros 15 oed. Mynediad 50c i rai sydd ddim yn cystadlu. Enwau gyda'r arian i Mari Griffiths, 15 Caradog Place, Deiniolen cyn gynted ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda. Gwerthir diod ac yn y blaen. Yr elw o'r ddau achlysur yma at Gronfa Carnifal Deiniolen.

DEWCH AM DRO O GYLCH Y FRO

Awn heibio Craig Ddeiniol, Awel y Mynydd a Ceris, troi i'r dde wrth Pen-y-Golwg a daw Coed Mawr i'r golwg, ceir wedyn Y Borthen Gron, o'r golwg yn y drain mae Cae Main, oddi tano Erw Fair yn y llain goed Cae'r Tŷ, yn uwch na wal y foel. Y Fron, Moel Blochdy, y ddau Moel Rhiwen, tros y wal hen dŷ'r Cipar, y ddau Bwlch-cae-mawr, Bwlch-bach a Trosgol. Yn ardal y defaid rhaid cael cynefin, corlannau y clytiau teg a'r ffriddoedd, y Caeau Uchaf, Cryngae a Tan-y-Weirglodd, yr Erw-Wen, Cefn-Bach, Pen-Cefn, y Cefnau Coch, Tŷ'n Gerddi, a Tŷ'n Ffridd, y ddau Pen-Bont yr Afon-Goch.

I'r dde o Groeslon y Saint, dau Dŷ Canol, Tal Eithin, Pen-parc, ar ben y ffordd mae Bryn-gwynt, gerllaw mae'r Rhosydd-dir. I fyd y fuwch daw'r Buarth, Tan-y-Buarth, Tan-y-Buarth Uchaf a Pen Buarth, os am fagu llo pa le gwell na Bryn-Gro. Dyma'r Gwaunydd, Y Wain,

Tal-y-Waun, Blaen y Waun a Cefn-y-Waun, Tyddyn Uchaf, Tan-y-Marchlyn, Penbryn gwyn, Glan Gors, Tan Elidir, Bryn Brith, Gorlan Uchaf, Clwt y Bel, Tri Tyddyn Difir, Bron Gynfi y ddau Barc, Tŷ Mawr, Hafod y Braich, Buarth y Braich, Tal Braich, Bwlch-y-gwynt, y tir yn denau ceir llawer clogwyn, craig a cherrig. Cerrig y Nyth, Cerrig Llwydion, Garreg Wen, Pencraig, Tan Graig, Graig Lwyd, Pen Graig, Tan-y-clogwyn, Clogwyn Guto, Bryn Tirion, Foel Gron, dau Fwlch uchaf, Tan Rhiw, Rhwng-y-Ddwyrdd, Tŷ Capel, dau Dŷ Ucha'r Ffordd, Cyfni, Tŷ'r Ysgol, Glanffrwd, Minffordd, Llandinorwig, Tŷ'n Clwt, Rhydfadog, Tros yr Afon, Glanrhydfadog, Gorlan Bont, Gorlan Isaf, Hen lôn, Pen Inclein, Tyddyn Du, Wylfa, Tŷ'n Bigil, dau Bigil, Bwlch Merddyn, Bron Foel, Y Foel, Tan y Foel, Llety Llwyd, Pen lan, Tan y ffordd, Garnedd a Tan y Bryn.

GWOBRWYON YSGOL BRYNREFAIL

Yn dilyn Cyfarfod Llywodraethwyr nos Lun, Hydref 5, penderfynwyd gwobrwyo'r canlynol:

Safon A:

Louise Bernard; Janet Elizabeth Hughes; Sandra Ann Morris; Sharon Wyn Owen; Kirsty Mc Cann; Enid Price; Sharon Vaughan Williams; Rheon Larsen; Gareth Ellis Williams; Vaughan Llywelyn Hughes.

Calonogol yw gweld fod cymaint yn haeddu gwobr. Dymunir pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

I'r rhai o'r Flwyddyn Gyntaf yn y 6ed dosbarth a eisteddodd arholiad A,O mewn Mathemateg Ychwanegol ac O Ystadegau - Manon LLwyd Evans - A yn y ddau bwn; Dafydd Meredydd Jones - B mewn Ystadegau.

Safon O:

Rhoddir nifer graddau A a B a enillwyd ar ôl pob enw:

Cheryl Edwards - 3A 1B; Olwen Meredydd Jones - 3A 4B; Meinir Dauncey Williams - 3A 2B; Emma Bernard - 3A 5B; Sarah Gray - 5A 1B; Nia Wyn Griffiths - 6A 4 B; Lisa Rudkin - 5A 5B; Alan

Williams - 3A 6B; Cynrig Baxter - 4A 3B; Dominic Crowe - 4A 3B; Philip Ingle - 3A 4B.

Rhoddwyd gwobr i bawb a thair gradd A neu fwy. Wrth edrych drwy ganlyniadau Safon O gwelid fod 39 o ddisgyblion allan o 150 yn y 5ed flwyddyn i gyd, neu 26 y cant wedi ennill gradd B (C yw'r marc pasio) mewn dau neu fwy o bynciau. Hefyd gwelid fod 42 o ddisgyblion y 5ed i gyd, sef 28 y cant, wedi cael gradd A,B,C neu Gradd 1 TAU mewn pump neu fwy o bynciau. Y mae rhain yn ganlyniadau arbennig o foddhaol ac yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Gwynedd i gyd ac yn fwy felly o gofio mai canlyniadau Gwynedd oedd y gorau trwy Gymru. Y mae'r plant a'r athrawon yn haeddu canmoliaeth yn enwedig o gofio fod y flwyddyn hon wedi colli llawer o wersi yn ystod y gweithredu diwydiannol. Y mae'n amlwg fod athrawon wedi gwneud ymdrech arbennig i sicrhau na fyddai eu disgyblion yn dioddef yn academaidd o'r herwydd.

W.E. Thomas,

Prifathro.



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg

Hefyd yn Siop

FFYN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS

ADAR MAWR

Mae 'na rai yn dal ar gael sy'n mynnu fod mantell Griffith Jones y 'Deryn Mawr' neu'r Barwn Munchausen wedi syrthio arnaf i. Gobeithio mai camsyniad mae nhw; mae o'n gyfrifoldeb rhy arswydus i'w goleddu. Dyna pam y bydda i'n falch o daro ar rai eraill weithia sydd â mwy o gymhwysder i ysgwyddo'r traddodiad. Mi ddois ar draws un felly mewn siop fferylllydd yn y dre ers dim llawar.

Roedd ganddo fo rhyw fagia negas yn hognian arno fo ymhob man nes yr oedd o'n edrach 'r un fath â rhyw hen fuch isio o'i godro. Dyma fo'n gollwng ei hun yn glec i ista wrth fy ochr i.

"Ddaru ti ddim digwydd gweld yr hen wraig acw hyd y fan 'ma yn rhwla?" medda fo yn ei ragymadrodd.

"Naddo," medda finna, er na faswn i yn ei nabod hi taswn i'n taro fy nhalcan ynddi hi.

"Mi rydw i'n dechra cael byda hefo' hi ysti," medda fo.

"O? Be' sy' wedi dwad iddi hi?" medda finna.

"Roeddwn i yn y dre' ma hefo hi y dwrnod o'r blaen, o flaen siop William John Wan yn fanna. Ac mi roeddwn i'n meddwl fy mod i wedi clywad rhyw glec ysti, ac mi roedd hi yn rhyw natur dwad ar ei gwynab, a dyma fi'n mynd â hi i'r tŷ byta am banad i edrach fasa hynny yn fflonsio rhywfaint arni hi. Ond erbyn gweld, be' oedd y matar; roedd cortyn ei staes hi wedi torri."

"Be' neusoch chi?" medda fi, o ddiffyg dim callach i'w ddweud, er ei bod hi'n amlwg erbyn hynny nad oedd o isio ei borthi.

"Mi es â hi i'r siop staesus ar ei hunion, ac mi roedd 'na ddwy neu dair o rhyw genod yn y fan honno o'i chwmpas hi. Fedrwyd chi neud rhwbath iddi hi? medda fi wrthyn nhw, iddi ddal i fynd adra. A dyma nhw yn mynd â hi i rhyw dent i ben draw'r siop i gael ati hi gaswn i, ac yno y buo nhw am sbel. Yn y diwadd dyma un o'r genod allan ata i. 'Does 'na fawr fedran i neud iddi mae arna i ofn medda hi fel 'na. Mae nhw wedi rhoi gora i neud staesus fel 'na ers cyn rhyfal gynta.'

"Wyddwn i ddim beth i neud wedyn, a dyma fi'n gofyn am weld y manijar. Dyn bach neis, a dyma fo'n sbio ar yr hen fusus oedd erbyn hyn wedi dwad allan o'r dent, fel tasa hi yn rhywbath ar werth mewn ocsiwn, a dyma fo yn mynd â fi o'r neilltu.

"Y peth gora fedrwyd chi neud hefo hi rwan, tan nes daw ei mesura hi drwadd," medda fo, "ydy chwipio weirian blaen amdani i'w dal hi i mewn." Lle caf fi beth felly? medda finna. "Triwch siop Ifan

Jones," medda fo fel 'na."

"Wel mi ges stagar i'w chael hi cyn bellad a'r fan honno. Roedd hi fwy o natur dwad ar ei gwynab os rhywbeth, a dyma fi'n ei gadael hi y tu allan i bwyso ar bolyn teligram. Ond erbyn gweld, doedd gynyn nhw ddim byd yn y fan honno ond weiran i gau rhag defaid, ac mi fuo rhaid i mi setlo am rowlyn o honno, ac erbyn i mi fynd allan wedyn, dyna lle roedd hi'n fflat ar lawr, ac mi ges hambyg i'w chael hi ar ei thraed. Wedyn roedd yn rhaid i mi fynd â hi i rhywla o fysg pbol i roi'r weiran amdani hi. Mi ces hi i lawr ar y cei yn y diwadd, ond mi ges styrffig. Wn i ddim beth fasa wedi dwad ohono i chwaith heblaw i rhyw ddau hogyn oddar y cwch sgota ddigwydd dwad heibio a fy ngweld i yn y fan honno yn ymlafnio hefo hi, a dwad yno a'i dal hi i lawr ar rhyw fainc."

Ar hynny dyma rhyw ddyn mewn côt wen yn rhoi ei ben rownd y palis hwnnw. "disgwyl am buls ydach chi?" medda fo.

"Na dim ond cael sbel," medda fi.

"Sgynoch chi ddim hawl i fod yn y fan 'na os nad ydyach chi isio puls", medda fo.

Dyma'r traethodydd yn troi ata i. "Wŷr o ddim mwy am buls na wŷr cath môr am foto beic," medda fo fel 'na. "Ar y lein roedd o ysti nes y cafodd o dynnu ei gôt."

"Tewch sut felly?"

"Roedd o'n gweithio yn y bocs signals ar y lein fawr yn swabia Rhyl, mewn rhyw stesion bach. Mae'n siŵr gen i ei bod hi wedi cau erbyn hyn, doedd y trens mawr 'na ddim yn stopio yno yr adag honno. A rhyw noson mi dynnodd y lifar rong beth bynnag; mi yrrodd ddwy 'Irish Mail' i wyneba 'i gilydd nes yr oeddwn nhw yn fflat fel dau bisin hannar coron ac yn huddug i gyd. Frifodd 'na neb chwaith wrth lwc. Peth rhyfedd na fasat ti wedi clywad amdano fo; roedd o yn y papura 'na i gyd yr adag honno."

"Sut y buo hi arno fo?" medda fi.

"Mi ddarun chwilio i mewn i'w achos o ysti fel y byddan nhw ar ôl

helyntion fel yna, ac erbyn i betha ddwad allan, dyma nhw'n ffendio bod gyno fo hogan yn y bocs hefo fo, ac heblaw i honno ddwad ymlaen i roi tystiolaeth mi lasa fod wedi bod yn waeth arno fo."

"Be oedd gyny hi i ddeud?"

"Deud wnaeth hi fod y ddwy dren wedi dwad ar ei bac o pan oedd o lia yn ei disgwyl nhw wyt ti'n gweld, ac mi fachodd ei ddillad o. Wedyn dyma fo'n cythru i rhywbath gosa i law i arbad ei hun."

"Be oedd gynyn nhw i ddeud am hynny?"

"Mi gyrrwyd o i rhyw stesion bach i fyny'r wlad 'na wedyn i bwnshio ticedi. Roedd o yng ngolwg y stesion mastar yn y fan honno wyt ti'n gweld, rhag ofn iddo fo ddechra pwnshio merched."

Dyma'r storiwr wedyn yn tynnu slab hannar pwys o siocled o bocad ei drowsus. "Gymi di jou o hwn?" medda fo gan dynnu'r papur arian yn ofalus.

"Fydd gin i fawr o daro amdano fo", medda fi.

"Na finna chwaith achan," medda fo gan sodro talbo yn ei geg a'i glecian o dan ei ddannedd a phlugu'r papur arian. "Hwn ydw i isio yli".

"Gneud arian drwg ydyach chi?" medda fi.

"Naci achan, mi rydw i ar hannar gneud siwt hefo fo. Does gin i ddim ond darn o lawas eto isio'i gneud."

"Duwcs, trio cymyd lle Liberace ydach chi?"

"At y gae ysti. Mae o'r stwff gora gei di i gadw yn gynnas. Mi fydda i ofn gynnedeiriog cael y thermoffobia 'ma. Mae hwnna yn mynd a chanoedd ohona ni o 'ma bob blwyddyn. Yr unig ddrwg ydy, mae siwt papur arian y peth gwaetha gei di ar derfysg. Mae o'n beth siort gynta am fynnu mell. Mi rydw i'n cofio cael fy nal mewn

storm o fellt mewn gwasgod felly rhyw dro, ac erbyn i mi gyrraedd adra chan, roeddwn i fel taswn i wedi dwad a hynny o fellt oedd ar gael hefo fi. Roeddwn nhw yn gwau yda i ym mhob man es yr oeddwn i'n edrach fel coedan Dolig, a fy llygada fi yn gleuo fel fflash lamps, ac mi oeddwn i fel taswn i'n anadlu mell."

"Be' neuthoch chi?"

"Dyma fi'n tynnu'r wasgod a'i sodro hi ar gefn y drws. Wyddost ti be roedd hi'n goleuo fel leithows am wythnos. Doeddwn ni ddim isio gola i ddarllan na pheth. Mi fuo yn arbediad mawr yn y bil lettric."

"Mi fuoch yn lwcus na chawsoch chi ddim o'ch llosgi."

"Do fachgan. Ond mi ydw i wedi taro ar feddygyntiaeth i hynny."

"Be' sgynnoch chi?"

"Mi rydw i wedi gneud cynffon bapur arian yn llusgo ar lawr y tuôl i mi wyt ti'n gweld Mae honno yn eu daearu nhw...."

Ar hynny dyma ni'n clywed rhyw lais. "Ydach chi'n dwad Hiwi, rhag ofn i ni golli'r Moto Glâs?" A beth ddaeth rownd y gongl ond yr hen wraig ei hun yn flinderog ac yn llwythog. Dyma'r hen fachgan yn hel ei betha at ei gilydd a chodi.

"Mi fydd yn well i mi fynd ysti," medda fo gan daro gweddill y siocled yn ei geg, "neu fydd 'na ddim taw arni hi, mae hi'n edrach yn ddigon sad, fasat ti ddim yn deud, a chysidro mai werian sy'n ei dal hi i mewn."

"Ydy'n tad", medda finna. "Wel da boch chi rawn."

"So long," medda fo, ond roedd yna un ergyd bach arall heb ei thanio. "Yr unig beth ydy," medda fo gan droi yn ei ôl, "mae'n rhaid i mi gymyd efail bedoli ati hi i'w daffod hi yn y nos."

Fel y dwedais i; mae'n dda fod 'na rhywun arall yn cario'r traddodiad.

'Y GWALCH'

MERCHED Y WAWR ARFON: Yn Theatr Seilo Caernarfon, Tachwedd 13 am 7.30 p.m., tocyn £1. Dowch a'ch ffrindiau. Yno, Merched Rhanbarth Dwyfor yn rhoi perfformiad o "Cymru Heddiw ac Yfory". Rhaglen ysgafn adloniadol medda nhw, ond gan gofio mai Wil Sam piau'r sgript, ac fod syniadau lliwgar, a rhyfeddol o ddigri, merched Llŷn ac Eifionydd yn gorlifo, does ryfedd i ni gael bore bythgofiadwy yn Theatr Bach y Maes yn ystod Eisteddfod Bro Madog. Felly dyma siawns i chwithau gael hwy! hefo nhw ar nos Wener, Tachwedd 13 yn Theatr Seilo. Cofiwch.

APÊL YMCHWIL Y GALON: Cynhaliwyd noson goffi flynyddol Cangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl Ymchwil y Galon, yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon Nos Iau Hydref 8ed. Croesawodd Miss M Richards bawb oedd yn bresennol a diolch am eu cefnogaeth. Hefyd estynnodd groeso i'r Maer, Cyn Huw Edwards, ac yn ei araith dywedodd y Maer ei fod yn falch o gefnogi'r achos. Cyflwynodd Miss M Richards siec o £4,000 i Mr D. Heeseman, trefnydd dros Gymru. Wees dderbyn y siec diolchodd Mr Heeseman i'r pwyllgor am eu gwaith, ac yn ei araith soniodd am yr angen am beiriant calon (defibrillator) i'w ddefnyddio gan wasanaeth yr ambwylans lleol, a dwedodd byddai cyfran o'r arian yn mynd tuag at gael peiriant y galon, hefyd yn bresennol roedd aelod o ambiwlans, yn dangos yr hen offer oedd yn cael ei ddefnyddio, ac mor ddefnyddiol fyddai'r peiriant newydd yn yr ambiwlans. Mae elw Caridau Nadolig Apêl y Galon, eleni yn mynd tuag at y peiriant, felly archebwch eich cardiau heb oedi i gefnogi'r achos. Cardiau ar gael gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug, Ffôn Caernarfon 4385.

Merched . . .
Dynion . . .
Plant . . .

I gael trin eich gwallt yn eich cartref cysylltwch â

SIAN

MAIRANNEDD
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 5366

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**CARPEDI
GLÂN!**

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

**TEGID
PRITCHARD**
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

Annwyl Gyfeillion,
Diolch o galon i bob un ohonoch a fu mor garedig a chydymdeimlo â mi ar golli fy chwaer. Yr oedd eich caredigrwydd yn gysur mawr i mi. Pob bendith arnoch,
Yn ddiffuant,
Pat Larsen.

CLWB YR HEULWEN: P'nawn Mawrth, Hydref 20ed am 1.30 p.m. treulwyd orid ddiffr a hwyliog yng nghwmni Eifion Harding, Winllan. Bu'n olrhain ei ddyddiau mebyd a'r dylanwadau fu arno ym myd adrodd. Rhyfeddwyd at ei ddawn i allu newid o'r digri i'r difrif gan newid goslef ei lais mor effeithiol.

Darllenwyd cofnodion gan y Llywydd Mrs Eluned Porter. Cydymdeimlwyd â Mrs Larsen wedi colli'i chwaer. Dymunwyd adferiad iechyd buan i Mrs Alice Thomas, ac i Mrs Myra Jones chwaer Mrs Nellie Roberts, ac i bawb sy'n sâl yn y pentref. Llongyfarchwyd Alison a Gwynfor ar eu priodas yn ddiweddar. Casglwyd £44.17 at Glwb yr Henoed, Gwynedd, diolchir i'r casglwyr Jean Roberts, Elisabeth Jones ac Ann Ifans ac i bawb a gyfrannodd mor hael. Yr un yw'r diolch i staff a phlant ysgol Tan-y-Coed am eu rhodd arbennig hwythau, a gasglwyd yn eu gwasanaeth Diolchgarwch b'nawn Gwener, Hydref 16.

Rhodddwyd y te gan Mrs Mary Davies a Mrs Percy Williams. Rhodddwyd y raffl gan Mrs J.M. Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs. Porter. Diolchwyd am y te, a'r raffl ac i Mrs Harding gan Mrs B. Evans. I ddathlu swper y Nadolig yng Ngwesty'r Anglesey, Nos Fercher, Rhagfyr 9ed bydd Clwb y Merched yn ymuno â ni. Cynhelir y cyfarfod nesaf Tach. 17 gyda Mrs B Evans yn diddori.

YSGOL SUL BOSRA: Dymuna'r athrawon ddiolch i'r plant i gyd am ddysgu eu gwaith mor drylwyr ar gyfer gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd yng Nghefn y Waun, Deiniolen ac hefyd eu gwasnaeth Diolchgarwch fore Sul, Hydref 18. Diolch blant!

EGLWYS SANTES HELEN: Mawr y diolch i'r merched fu'n addurno'r Eglwys fore Sadwrn ac i bawb am eu rhoddion Diolchgarwch. Er gwaethaf y tywydd garw, cafwyd cyfarfod Diolchgarwch bendithiol am 10.30a.m. gyda Canon R.D. Roberts yn gweinyddu. Rhanwyd rhoddion y plant i gleifion yr Eglwys. Gweinyddwyd gwasanaeth Gosber gan Y Parch Erwyd Edwards am 4.30 p.m. Diolchir i bawb a drefnodd ac a gefnogodd y Ffair Hydref Nos Lun, Hydref 19. Llongyfarchiadau i blant yr Ysgol Sul am ddysgu eu gwaith mor

drwyadl ar gyfer gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd, ac i'r athrawon am eu hyfforddi.

YSGOL TAN-Y-COED: Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig yn yr Ysgol a phenderfynwyd mai cyflwyno rhodd ariannol i Glwb yr Heulwen fyddem eleni. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y casgliad o £28.10.

Bydd yr ysgol ar gau Ddydd Gwener, Tachwedd 27ain a Dydd Llun, Tachwedd 30ain, sef y gwyliau a ganiateir gan y corff llywodraethol.

APÊL Y SGANIWR: Mewn cyfarfod o bwyllgor Lleol Apêl Sganiwr, Ysbyty Gwynedd a gyfarfu, Nos Iau, Hydref 15ed, dywedodd y trysorydd Mr Leslie Larsen fod y targed o £1,300 a osodwyd i'r pentref wedi ei basio. Casglwyd £645 mewn ymateb i apêl y pwyllgor am gyfraniadau gan bob cartref. Daeth £675 mewn cyfraniadau angladdau er cof am deuluoedd. Ddydd Gwynedd a gyfarfu, Nos Iau, Hydref 15ed, dywedodd y trysorydd Mr Leslie Larsen fod y targed o £1,300 a osodwyd i'r pentref wedi ei basio. Casglwyd £645 mewn ymateb i apêl y pwyllgor am gyfraniadau gan bob cartref. Daeth £675 mewn cyfraniadau angladdau er cof am deuluoedd. Daeth £200 mewn elw o Gyngerdd Noson Sganwir ar y cyd â Chlinic Llanberis. Gwna hyn gyfanswm o £1,520 sydd £220 dros y targed. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr Apêl teilwng hwn.

TRIP I GAER: Bydd y trip blynyddol i Gaer, Ddydd Sadwrn, Tachwedd 28ain, i gychwyn am 8.30 a.m. Pris £2.75. Enwau i Margaret Williams, Carrog, Llanberis 870716, mor fuan ag sy'n bosibl.

LLONGYFARCHIADAU a phob bendith i Doris Adlam wedi ei dewis yn flaenores yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da hefyd i Tecwyn Green ar ei benodi i chwarae Rygbi dan 18 oed yn nhimau Môn, Gwynedd, Gogledd Cymru a thîm Gogledd Cymru a'r Gorllewin. Pob llwyddiant i Richie Green sy'n astudio Ffiseg a Chemeg yn y Politechnig yn Nottingham. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dafydd Meredydd, Pant Hywel ar ddathlu ei benblwydd yn 18oed, Hydref 17.

CLWB CANT: Nos Wener, Medi am 6.30 p.m. yn Neuadd yr Eglwys cafwyd noson o Gwis a Thatws trwy'u crwyn. Daeth cynulliad teilwng a rhanwyd pawb yn ddau dîm A a B. Tim A orfu ond fe fwynhaodd pawb y cwis a drefnwyd gan Mr Glyn Ifans. Yr holwr oedd Dafydd Ifans. Diolchir i Glyn Ifans am drefnu'r ciws

YSGOL FEITHRIN



Dyma rai o'r plant sy'n mynychu'r Ysgol feithrin. Rydym yn cyfarfod bob bore Mawrth a Iau yn Neuadd yr Eglwys am 10.30 ac mae croeso i unrhyw fam (warchodwr) a'i phlentyn ymuno â ni. Codir tâl o 20c ar bob oedolyn a 10c ar bob plentyn dros flwydd oed. Ni chodir tâl ar blant o dan flwydd oed. Ymunwch â ni am baned ag i'r plant gael cyd-chwarae.

ac i John Arwyn am roi'i datws ac i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd. Gweithgaredd mis Hydref fydd Noson Calangaeaf, Nos Wener, Hydref 30 yn Neuadd yr Eglwys am 6.00 p.m. Y beirniad fydd Mrs Heulwen Evans, 12 Bryn Eglwys.

Gweithgaredd mis Tachwedd fydd fideo o'r Barbaciw ym Mhant Hywel ac o Garnifal 1987 yn ngofal Mr Eurwyn Jones, Camelot.

DIOLCH: Dymuna Dylan Price Williams ddiolch am y cardiau, anrhegfion a galwadau ffôn a

dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn ysbyty Gwynedd.

GWELLHAD: Dymunwn adferiad iechyd buan i Jean Roberts a Myra Griffiths yn dilyn anffawd ar y ffordd yn ddiweddar.

COFIWCH Y DYDDIADAU

Llanrug - Tachwedd 11, Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr.
Tachwedd 26 - Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr.

CARTREF PRESWYL HENOED



BRON ERYRI
LLANBERIS, Ffôn:
870142 neu 870391

- Stafelloedd sengl a dwbl
- Gofal 24 awr
- Gwres canolog trwy'r adeilad
- Yr holl staff yn siarad Cymraeg
- Golygfa hardd
- Liffat bob stafell sy' ddim ar y llawr gwaelod
- Rhagofalon tân priodol
- Lolfa teledu lliw
- Pwyntiau teledu ym mwyafrif y lloffttydd
- Bath-medic

Ymholiadu i Mr a Mrs A.W. Hughes (perchnogion)

neu Mrs. Eirian Mali S.R.N. (Metron)

AELWYD GARTREFOL

Cofrestrwyd gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd



22 BRYNTIRION

TACIS WEBB

PENISARWAUN

Ffôn:

Llanberis

870145

Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos
Gwasanaeth Maes Awyr
a Phorthladd
Gwaith Contract

CHWARAEON

PYSGOTA

Adroddiad H.P. Hughes

Unwaith eto daeth tymor y pysgota i ben ac mae'n braf iawn cael dweud ei fod wedi bod yn un o'r tymhorau gorau ers blynyddoedd lawer. Mae'n bleser am unwaith cael clywed dim byd ond canmoliaeth gan yr aelodau am y nifer o bysgod mudiadol a welwyd ac o ran hynny sydd yn dal i redeg i fynny'r Seiont am y darnau uchaf ar gyfer y claddu.

Fel yr adroddais y mis diwethaf, bu'r helfa yn arbennig o dda, gyda'r cyflenwad o ddŵr yn foddhaol dros ben, a chalonogol oedd clywed fod nifer o ymwelwyr wedi cael llwyddiant. Siaredais ac un ar lan yr afon yng Nghrawia a dywedodd ei fod wedi bod yn pysgota am eog ers pum mlynedd o'r Alban i Dde Lloegr ond heb lwc. Ar docyn wythnos yma cafodd ddau eog yn pwyso 9 ac 8 bwys o byllau newydd Crawia.

Yn ogystal daliodd nifer o aelodau lleol eu heogiaid cyntaf, gan roi blas iddynt o'r adloniant gorau sydd yn bod.

Un o'r rhai mwyaf llwyddiannus (ond nid dyma ei eog cyntaf) oedd Wil Parry o Benrhos, Bethel. Cafodd sgodyn 7 bwys yng Nghrawia cyn fy adroddiad diwethaf, ac mae'n rhaid dweud mai fi oedd y cyntaf i'w weld ganddo (ag eithrio ei fab). Am beidio sôn amdano y mis diwethaf mae wedi gwneud yn siwr fy mod yn cael peth gur yn fy mhen.

Rhai eraill a gafodd fachiadau gwerth eu nodi oedd Maurice Jones, Penllyn, gyda thri eog am 10, 9 ac 8 bwys ac un Sewin am dri phwys a hanner i gyd wedi eu dal rhwng Penllyn a Stablau o fewn 2 awr mewn un bore. Hefyd Pete o hen dŷ Vaughan fel y'i gelwir ef o Frynrefail, a gafodd ei eog cyntaf yn pwyso 8 pwys ers llawer blwyddyn o bysgota caled, a'r un bore collodd

un arall. Clywais bod aml i bysgotr profiadol wedi rhoi cyngor iddo ac yn ceisio ei helpu i rwydo ei ail sgodyn.

Yr eog gorau o'r afon yn ystod yr Hydref oedd un 18 pwys i Howard Jones, Caeufan. Yn ogystal cafodd 3 sgodyn arall 8 pwys yr un.

Mae'r nifer o bysgotwyr y gellid eu henwi am eu llwyddiannau yn niferus iawn, ac mae'n debyg y cafwyd am adael rhywun allan, ond dyma yn ôl a glywid restr o enwau y pysgotwyr lleol a gafodd wlychu eu rhwydau - Gwynfor Jones, Llanrug am un 13 pwys (4 i gyd) Aled Evans, Caernarfon (Cwm -y-glo gynt) dau am 8 a 7 pwys, Huw Williams, Llanberis un am 7 bwys, Emyr Owen a'i frawd Dylan, Llanrug ond Emyr yn awr o Ddeiniolen gyda 7 yr un, y gorau am 13 pwys. Mae Goronwy Morris a James Carr Llanrug hefyd wedi cael rhyw bedwar yr un, rhai gyda'r bluen. Clywais mai lwcus iawn oedd Jim Carr oes na wir yn hyn tybed?

Un ffaith arall sy'n werth ri nodi yw fod Maurice Craig o Llanllyfni wedi cael y Sewin gorau o'r Llyfni a glywyd amdano erioed sef un 15 pwys hwn yn o agos i'r record Brydeinig.

Er cau y tymor, maw gwaith mawr ar y gweill i lanhau a gwella'r afonydd yn barod at dymor arall.

Hyd at heddiw y nifer o eogiaid a ddaliwyd yn y Seiont yw 214, y gorau yn 22 a hanner pwys.

CRICED 6 BOB OCHR DAN DO



Dechreuodd ail dymor Cynghrair Criced Dan Do, Bangor y penwythnos diwethaf, ac mae nifer o fro'r Eco yn cystadlu ynddi gyda gwahanol dimau.

Ysgol Brynrefail oedd pencampwyr y llynedd a hwy hefyd gipiodd dlws cystadleuaeth y 'knock out'. Colli fu eu hanes yn erbyn tim Clwb Criced Bangor yng ngêm gyntaf eleni, er iddynt lwyddo i sgorio dros 100 o radiadau.

Mae criced dan do yn gêm eithriadol o gyflym, a cheir rhediad am daro'r bêl yn erbyn y wal, gyda dwy ychwanegol am redeg rhwng y wicedi. Y mae 12 pelawd i bob batiad, ac nid yw sgorio dros 120 rhediad yn anarferol. Arwel Jones, Harri Jones, Gwilym Williams a'i fab Alan, Dic Parry a Dafydd Evans sy'n cynrychioli'r ysgol fel y gwelir yn y llun isod.

PÊLDROED RHEOLWR NEWYDD I LANRUG

Ni fu eu hail dymor yng Nghynghrair Gwynedd, hyd yma, beth bynnag, yn un llwyddiannus i Glwb Pêldroed Llanrug, ac nid ar y cae yn unig y bu eu problemau. Fe gofiwch i nifer o'r chwaraewyr a arwyddwyd dros fisoedd yr haf eu gadael cyn cicio'r un bêl, a thorri cysylltiad fu hanes eu Rheolwr Chwaraewr Mike Kennedy hefyd.

Yn dilyn hyn, cymerwyd yr awenau gan eu cefnwr profiadol David Phillips, ond bellach mae yntau wedi codi ei bac gan arwyddo i Clwb Pêldroed Bethesda.

Yr wythnos ddiwethaf fe benodwyd Dafydd Owen (Dafydd Mona) o Lanrug i'r swydd, y trydydd rheolwr y tymor hwn. Athro ymarfer corff ym Mhwillheli yw Dafydd, ac mae pethau wedi dechrau yn weddol iddo, gan i Lanrug haeddu gêm gyfartal o 3 gôl yr un yn erbyn Penrhyndeudraeth y Sadwrn diwethaf. Selwyn Allsup a Dilwyn John Williams (2) yn sgorio iddynt.

Digon siomedig fu dechrau'r tymor i Lanberis hefyd, ond bellach mae'r tîm wedi 'cicio' a gwelir hwy yn ymladd am eu lle arferol ar ben tabl y gynhrai. Buddugoliaeth dda o 2 gôl i 1 yn erbyn Llanerchymedd y Sadwrn diwethaf.

Mae ail dîm Llanebris yn drydydd yng Nghynghrair Sain, Caernarfon a'r Cylch er nad oedd gêm ganddynt y Sadwrn diwethaf, ac ail dîm Llanrug yn nawfed. Cwpan Iau Gogledd Cymru fu'n denu eu bryd hwy a chafwyd gêm gyfartal o 4 gôl yr un ym Mhenmaenmawr. Gwyn Morris yn sgorio'r bedair.

PÊLDROED DAN 16EG OED

Y mae cyfoeth o dimau pêldroed yn yr ardal, yn enwedig felly rhai dan 12, dan 14 a dan 16 oed. Gwn hefyd am o leiaf un tîm dan 10 oed ac wrth gwrs mae yn Llanberis dim dan ddeunaw. Fe hoffwn yn fawr petai gwybodaeth yn dod i law am rai o'r gemau, fel y gellid trenfu i gael lluniau y timau ar y dudalen ôl.

Digwyddais ddod ar draws gêm rhwng timau dan 16 oed Llanberis a Llanrug y Sadwrn diwethaf, ac roedd brwdfrydedd y plant yn werth ei weld. Yn anffodus, methodd nifer o chwaraewyr Llanrug a throi i fyny i'r gêm, a hynny heb adael i'r rheolwr G.P. Jones (Max) wybod - tric gwael i ddweud y lleiaf, gan na fyddai timau o gwbl ar y lefel yma heb y gwaith caled a dirwgnach a wneir gan y rheolwyr.

Llanberis fu'n fuddugol, o 6 gôl i 1, ond y profiad o gael cynrychioli'r pentref sy'n bwysig yn hytrach na'r canlyniad.

Yng ngharfan Llanberis mae

Eifion Griffiths, John Ellis, David Ellis, Edward Rogers, Darrel Griffiths, Aled ap Deryl, Cai Williams, Mark Williams, Ieuan Jones, Ian Jones, Andrew Owen, David Griffiths, Dylan Parry a Paul Prytherch. T.J. Roberts yw'r rheolwr.

Carfan Llanrug yw Wyn Parry, Brian LL. Jones, Philip Owen, Lee Cook, Iwan Lŷr, John W. Jones, Robert Jones, Kevin Davies, Huw Williams, Dylan Hughes, Adrian LL. Jones, Ian Parry a Iestyn Roberts.



YSGOL BRYNREFAIL

PÊLDROED YM MHORTHMADOG

Sed flwyddyn colli 3 - 5; 3edd flwyddyn ennill 3 - 2; 2il flwyddyn ennill 4 - 3; Flwyddyn 1af Tîm A ennill 8 - 4; Tîm B ennill 14 - 3.

Mae Dafydd Meredith Jones (Penisarwaun) wedi cael ei ddewis yn aelod o garfan pêldroed Ysgolion Arfon dan 18oed ac mae Marc Williams (Llanberis) yn y garfan dan 15 oed. Fe chwaraeodd y ddau dîm yn erbyn Sir Feirionnydd ym Mhorthmadog ar ddydd Llun Hydref 12ed. Fe enillodd y bechgyn hŷn 5 - 1, a'r bechgyn dan bymtheg yn ennill 7 - 0. Fe sgoriodd Marc Williams bedair gôl yn y gêm yma.

PÊL DROED YN YSGOL DAVID HUGHES PORTHAEHWY

Bechgyn Hŷn (Cwpan Ken Phillips) colli 6 - 2; 2il flwyddyn - colli 8 - 2; Flwyddyn 1af - cyfartal 1 - 1.